# Y Ffynnon

Papur Bro Eifionydd

Rhif 488 • **Mehefin 2020** • 60c



Ar ei feic 12 

Cynghorion doeth 05 

Wmffra ar ei feic 41 

Arwyddion yr amserau 09 


# Gweld yr Angen

YN FUAN ar ôl i'r cyfnod argyfyngus presennol gychwyn, clywodd Elisabeth Peate, Hafod Wen, Golan am gynllun i wirfoddolwyr greu dillad pwrpasol i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd. Y syniad oedd fod aelodau o'r cyhoedd yn anfon defnyddiau i ganolfannau penodol (cotwm yn bennaf, oherwydd bod modd ei olchi ar dymheredd uwch) a'r defnyddiau wedyn yn cael eu dosbarthu i'r rhai fyddai'n creu'r dillad o fewn dalgylch o Dowyn Sir Ddinbych i Dywyn Meirionnydd. Enw'r cynllun yw 'Bags, Scrubs and More', a'r bwriad yw darparu PPE ar gyfer meddygfeydd ac ysbytai lleol.



*Elisabeth Peate*

Bu Elisabeth wrthi'n ddiwyd yn paratoi sgrybs (y trowsusau a'r tiwniciau a wisgir gan staff meddygol), a'u cynnwys mewn bagiau o'r un defnydd y gall y gweithwyr roi'r dilladau ynddynt cyn eu golchi. Cafodd gymorth Enid Madog Jones, Talafon, Golan a fu'n paratoi masgiau ar gyfer y cynllun.



*Enid Madog Jones*

Un o'r tasgau diddorol a gyflawnodd Elisabeth oedd creu sgrybs allan o orchudd dwfe Everton ar gyfer meddyg yn Ysbyty Bryn Beryl sy'n gefnogwr brwd i'r tîm o lannau Merswy!

Diolch i Elisabeth, Enid a phawb arall sy'n barod i roi o'u hamser i gynorthwyo fel hyn yn ystod amser mor ddyrys.

# Y FFYNNON

## Papur Bro Eifionydd

**Cadeirydd:** Dewi Williams,
Tyddyn Deucwm Uchaf, Penmorfa,
Porthmadog, LL49 9SD

**Ysgrifennydd:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Trysorydd:** Gwerfyl Davies,
Llecyn, Pencaenewydd
Ffôn: 01766 810213
gwerfyldavies@gmail.com

**Trefnydd Hysbysebion:** Catrin Evans,
Gwenfro, Y Ffôr
Ffôn: 01766 810552
gevans36@btinternet.com

**Y Bwrdd Golygyddol:**
**Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
Ffôn: 01766 523161
dyfnog@gmail.com
**Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710976388
**Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
Ffôn: 07979 700445
wendyrees20@icloud.com

**Cysodi a dylunio:** Aled Davies

**Argraffu:** Y Lolfa, Talybont


## Rhifyn nesaf



Cyfraniadau
i law erbyn:

**14 Gorffennaf**


Straeon, erthyglau newydd a llythyrau i: **Margaret Hughes**
Bryn Dyfnog, Cricieth
ebost: dyfnog@gmail.com
Ffôn: 01766 523161

Colofnau misol i: **Dewi R Jones**
Llys Gwyn, Muriau, Cricieth
ebost: dewirjones57@outlook.com
Ffôn: 07710 976388

Newyddion y pentrefi, Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Cynghorau Cymuned i: **Wendy Rees**
Parciau Mawr, Cricieth
ebost: wendyrees20@icloud.com
Ffôn: 07979 700445

**Allan: 24 Gorffennaf**

# Y Ffynnon
# Gair Byr




AR GLAWR y gyfrol *Cadwynau yn y Meddwl* o waith Gwyn Thomas mae yna lun o blismon a chanddo gi ar dennyn yn arestio dyn du yn America. Yn y gyfrol ei hun ceir y gerdd arbennig a gyfansoddodd y bardd am fywyd a marwolaeth Martin Luther King, ac sy'n agor gyda'r llinell drawiadol: 'Yn Nhennessee, ym Memphis, y daeth yr awr'.

Ac yna yn nes ymlaen yn y gerdd, ychydig cyn y diwedd, mae'r geiriau yma:
'Mae ar hyd yn oed ddynion-lludw
Du eu lliw, eisiau byw:
Felly yr oedd hi ym Memphis.'

Yn ôl y dystiolaeth ddiweddar mewn protestiadau a ralïau yn America a gwledydd y byd, yr un ydi'r gri a'r alwad am newid cymdeithasol sylfaenol ac am barchu hawliau pawb gan waredu'r byd o hiliaeth. Gryn 57 o flynyddoedd yn ddiweddarach fe erys angerdd y geiriau a'r dyhead dwfn:
'Mae gen i freuddwyd am y wlad
Lle bydd pawb yn bobl.'

Tybed a glywith Trump ein dydd a'i wladwriaeth rym 'Na' Rosa Parks wrth iddi wrthod ildio'i sedd ar y bws hwnnw yn Alabama? Dyna pryd y clywodd gyrrwr y bws y gair yna fel 'ffeil ar gadwynau yn rhygnu fel rhyddid'.

Wrth i ninnau gofio am George Floyd fe ychwanegwn y geiriau 'Mae bywydau duon yn cyfri' yn y gobaith y clyw'r byd nhw heddiw. Rhaid dal ati i ddweud, oherwydd: 'Ym Minneapolis ym Minnesota y daeth yr awr.'




Annwyl Olygydd,
ONID oedd Beti Rowlands, Plas Hafan, Nefyn a Menna ei chwaer wedi taro ar syniad hyfryd i ddifyrru'r amser ar y teliffon yn nyddiau'r feirws drwy geisio cofio cerddi a ddysgasant yn blant? (Ffynnon Mai).

Holai Beti am linell a aethai'n angof o 'Hogyn Gyrru'r Wedd'. Dyma'r pennill hwnnw yn gyflawn:

Yr haul ymsuddai dros y bryn
I'r eigion, fel rhyw gawr,
Pan gurai hogyn gwelw, syn,
Wrth ddrws amaethdy mawr;
Gofynnai hwn o dan ei bwn
A'i fochau'n llwyd eu gwedd,
'Ple gallaf gael rhyw damaid gwael
Yn hogyn gyrru'r wedd?

Mae pum pennill i'r gerdd ac fe'u ceir yn y cyfrolau *Caneuon Mynyddog* a *Gweithiau Mynyddog*.
Yn gywir,
D.E., Pencaenewydd


**CABLE GUYS**
**Yn troi Cymru'n ddigidol**
Freesat Digidol • Freeview Digidol
Uwchraddio Erials • Trwsio Erials
Dosbarthiad UHF
Gosodiadau mewn carafán
Amcan Bris am ddim
Prisiau cystadleuol
Am fwy o fanylion, ffoniwch Glyn ar:
**(01766) 512 107 (07789) 716 332**
28 Stryd Fawr, Tremadog, Gwynedd LL49 9RD


Mae'r Golygyddion yn gwerthfawrogi pob cyfraniad i'r Ffynnon ond ar yr un pryd cedwir yr hawl i gwtogi, cywiro, golygu neu eu gwrthod yn gyfangwbl. Hefyd nid yw pwyllgor Y Ffynnon o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.


Ariennir yn rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Partly funded by
**Welsh Government**

# Papur neu PDF?



***Mrs Eleanor Roberts, Bryn Efail Isaf, Rhoslan yn darllen Y Ffynnon ar ei i-Pad. Mae pob copi o'r Ffynnon ganddi o'r cychwyn cyntaf ond mae wedi arfer efo'r dechnoleg newydd ers tro felly doedd lawrlwytho'r papur ddim yn broblem***




***Elain Davies o Chwilog sydd yn gweithio yn garej Spar yng Nghricieth yn darllen copi papur o'r Ffynnon. Mae 'na lawer o bobl yn holi amdano yn y siop meddai Elain. 'Bydd yn dda cael copïau ar werth yma eto.'***

WEDI DAU FIS o seibiant o gyhoeddi fersiwn 'papur' o'r Ffynnon, a hynny am resymau diogelwch y dosbarthwyr a'r ffaith bod cynifer o'r siopau ar gau, bellach mae modd prynu copi papur o'r Ffynnon unwaith eto'r mis hwn, dan y drefn arferol ac am 60c y copi.

Ers i'r cyfnod hunan-ynysu gychwyn mae tîm golygyddol y Ffynnon wedi dal ati i gasglu straeon a newyddion ac ati, gan gyhoeddi rhifynnau digidol yn unig ar wefan Bro360 yn Ebrill a Mai. Mae modd mynd i edrych ar y rhifynnau hynny o hyd os na chawsoch gyfle ar y pryd. Hefyd, yn ystod y cyfnod yma, bu Aled Davies o'i gartref yn Ael y Bryn, Chwilog yn llungopïo rhifynnau'r ddau fis o'r Ffynnon ar gyfer y rhai hynny nad oedd ganddynt fynediad i'r we. Petai rhywun o'r darllenwyr am gopi o rifyn Ebrill neu Fai byddai modd cysylltu gydag Aled o hyd er mwyn iddo argraffu copi ar eich cyfer.

Yn y cyfnod hwn lle mae llawer yn dal i hunan-ynysu byddwn yn parhau i osod y Ffynnon ar wefan Bro360, a bydd modd ei darllen yno yn rhad ac am ddim am y ddau fis nesaf (rhifynnau Mehefin a Gorffennaf).

Rydym yn sylweddoli y bydd rhai yn hoff iawn o ddarllen pethau ar y we, ac eraill yn hapusach efo copi print yn eu llaw. Wrth edrych at y dyfodol bydd yn rhaid edrych am ffordd ymlaen i weithredu'r ddau gyfrwng. Y bwriad felly o Fedi ymlaen yw bod darllenwyr y Ffynnon yn medru naill ai dewis prynu copi papur yn ôl y drefn arferol, neu'n medru dewis prynu copi digidol am bris gostyngol gyda'r Ffynnon yn cael ei gyrru atoch yn electronig bob mis.

Yr hyn fyddai o help mawr i swyddogion y Ffynnon ar hyn o bryd yw cael rhyw syniad gan ein darllenwyr beth fyddai eu dewis tebygol nhw. Bydd hyn o help mawr wrth benderfynu faint o gopïau papur i'w hargraffu, a hefyd pa fath o gyfundrefn ddosbarthu copïau digidol sydd angen i ni ei rhoi mewn lle.

### Eich ymateb chi, felly?

Yr hyn fyddai o gymorth i ni yw petaech chi'n medru gyrru ebost syml at un o'r golygyddion (neu yn ein ffonio), neu ymateb ar ein cyfri Twitter neu dudalen Facebook, gan nodi'n syml pa un ai PRINT neu PDF fyddai eich dewis i'r dyfodol. Bydd hyn yn fodd i gloriannu beth fydd y galw tebygol o fis Medi ymlaen. Y bwriad ym Medi yw codi pris copi papur o'r Ffynnon i £1, ac yna copi digidol PDF yn 60c y copi.


Diolch am yr holl gynnwys amrywiol a geir yn y Ffynnon bob mis, a diolch am y fyddin o bobl sy'n ysgrifennu, tynnu lluniau, creu posau, yn golygu a thrin lluniau, gan baratoi papur mor gynhwysfawr am bris mor rhad.

# Gofalaeth eglwysi cylch Chwilog

ERBYN HYN mae'n hoedfaon yn cyfarfod dros Zoom bob dydd Sul, a rhwng 80 a 90 o unigolion yn bresennol fel arfer. Yn ddiweddar hefyd mae'r Gymdeithas wedi cychwyn dros Zoom, ac eisoes cafwyd nosweithiau difyr yng nghwmni Gwyn Elfyn, Arwel 'Rocet' Jones, a Lois o America ac Esyllt o Batagonia. Dros yr wythnosau nesaf fe fyddwn yn cael cwmni Elin Jones, Llywydd Senedd Cymru; Rob Nicholls, yr arweinydd cymanfaoedd a gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain; Liz Saville Roberts AS, ac Elfyn Llwyd yn sôn am ei ymweliad ag Irac gyda Boris Johnson rai blynyddoedd yn ôl.

wythnos cymorth cristnogol 13–19 MAI


Ar Sul Cymorth Cristnogol (pan gafwyd cwmni Anna Jane Evans, trefnydd y Gogledd yn ein hoedfa) gwnaed apêl am gyfraniadau ariannol gan aelodau, a braf yw nodi i 36 o sieciau ein cyrraedd gyda chyfanswm o £1260 at waith pwysig Cymorth Cristnogol. Mi fydd Rhodd Cymorth ar nifer o'r cyfraniadau yn ychwanegol at y swm yma felly mae dros £1400 wedi ei godi o blith aelodau a chyfeillion yr ofalaeth. Diolch i bawb am eu haelioni. Mae Cymorth Cristnogol yn helpu nifer o wledydd tlawd gyda'u hymateb i COVID-19 ar hyn o bryd, a diolch am eu gwaith yn ein henw ni fel eglwysi.




DOES DIM angen i mi ragymadroddi dim y tro hwn. Gadawaf i Brian Ifans wneud hynny wrth gyflwyno'i gerdd:

'Mae pawb ohonom wedi cerdded ein llwybrau lleol yn ystod y mis diwethaf 'ma. Rwy'n sicr hefyd ein bod, wrth gerdded, wedi gwerthfawrogi rhyfeddodau'r byd natur o'n cwmpas. Ac mae'r enwau Cymraeg yn y byd natur hwn yn rhyfeddod ynddo'i hun. Clywais enwau newydd am fysedd y cŵn yn ddiweddar – 'gwniadur Mair' a 'menig y Tylwyth Teg'. Hyfryd ynte. Gwyliwch a gwerthfawrogwch!'

Diolch i Brian am gerdd wanwynol hyfryd ac am y lluniau.




*1 Bysedd y Cŵn, 2 Dant-y-llew, 3 Clychau'r Gog, 4 Llygad Doli, 5 Botwm Crys*

## BLODAU'R GWANWYN

Mae ôl fy nhroed ar lwybrau'r fro
A lliwiau'r cloddiau i gyd dan glo;
Gwawriodd y gwanwyn yn ddistaw bach
Yn flodau gobaith yn yr awel iach,
Yn fotwm crys a llygad doli,
Yn meddwi'n braf ym miri'r perthi;
Yng nghlecs y cŵn a gwyrddni'r meillion,
A mêl yr eithin a'r danadl poethion,
Yn siglad tawel y clychau cain
Sy'n dawnsio'n dalog yng nghwmni'r drain,
Yn ffrwydriad ffyrnig dant-y-llew
Â'i gloc yn tician wrth golli'i flew,
Blodyn neidr a llygad-y-dydd,
Mae'r weirglodd bellach yn gwbwl rydd!

Wrth gofio'r lliwiau fe gofiwn yr enwau.
Wrth gofio'r enwau fe gofiwn y lliwiau.

***Brian Ifans***

Mae Elwyn Thomas fel sawl un arall yn treulio o leiaf beth o'i amser yn myfyrio a hel meddyliau am 'yr hen ddyddiau' ac yn dwyn i gof rai o brofiadau gorau bywyd. Ond fel y dywed o yn ei nodyn 'does yna ddim dianc rhag yr hen ystrydeb bod amser yn hedfan heibio yn llawer cynt wrth i rywun fynd yn hŷn'. Ond yn y diwedd mae'n siwr bod hyd un munud yr un fath i bawb!

Diolch i Elwyn am gyflwyno ei fyfyrdod yn gynnil ac am adael i'w feddwl grwydro yn y dyddiau caethiwus sydd ohoni.

## AMSER

Diolch, a ninnau'n awr dan glo,
Fod y cof yn rhydd i grwydro.
Bod modd llenwi'r oriau maith
Drwy ailflasu gwefr y daith.
Cofio'r hafau hir, di-loes,
Dyddiau dedwydd bore oes.
Pob awr yn orlawn o fwynhad,
Pob munud a phob eiliad.
A'r eiliad hwnnw yn y cof
Yn angerdd nad â'n angof.
Ond cofier, er rhamantu'n ffôl
Am ddyddiau na ddônt eto'n ôl,
Mai'r un o hyd yw hyd dy funud
Ddoe, heddiw ac yfory hefyd.

***R. Elwyn Thomas***

Gobeithio'n wir eich bod wedi clywed am loerennau Starlink a fu'n croesi awyr y nos dros Gymru yn ddiweddar. Roedden nhw'n ymddangos fel cadwyn, un golau yn dilyn y llall i'r un cyfeiriad. Mae'n debyg y byddai hynny yn dipyn o ryfeddod ar unrhyw adeg. Ond yn ôl y bardd yn ei nodyn efo'i gerdd 'roedd gwefr wahanol o'u gweld tra bo'n traed yn sownd i ddaear ein haelwydydd yn ystod y cyfyngiadau hyn'.

Diolch i'r Prifardd Osian Rhys am dynnu'r llun ar ein cyfer.

## STARLINK (25 Ebrill 2020)

Aeth cadwyn o loerennau heno
fel conga trwy stondrwydd cytserau,
a dim yn dolennu'u dilyniant o olau,
dim a welwn, rhwng dau orwel tywyll.

Dyna fyd a'i hynt yn dal i fod.

Mae'r dyddiadur yn rhy lân erbyn hyn,
yn rhy ormesol wag i'w ddirnad.
Dieithrwch dim yn ein dychryn.

Ond gan nad yw awr ond awr o'r dydd
a'r dydd yn ddydd o oes,
yr un yw oes â seren wib.

A rhag methu dirnad echelydd araf y ffurfafen,
dawnsiwn ninnau yn dres aur,
i gynnal trefn, ar noson braf.

Medrwn eto ryfeddu wedyn
at glymau'r amser
sydd gennym yn gyffredin.

***Osian Rhys***

Diolch i'r beirdd am eu cerddi. Anfonwch eich cyfraniadau i'r golofn at Dewi R. Jones, Llys Gwyn, Muriau, Cricieth neu trwy gyfrwng e bost: dewirjones57@outlook.com

R. D. Williams Cyf
Brocer Yswiriant
4 Thomas Buildings
Lôn Dywod, Pwllheli
LL53 5HH
Ffôn: (01758) 612 469
Ebost: rd.williams@btconnect.com
Am anghenion yswiriant o bob math, yn cynnwys moduron, tai neu fusnes, cysylltwch â ni i gael prisiau neu gyngor personol a lleol
*Awdurdodir a rheoleiddir gan Awdurdod Gwasanaethau Ariannol*

# Dathlu o bell ac agos

**Diolch yn fawr i Catrin Durie am fod mor barod i ysgrifennu ar ei rhan hi a'i brawd Shôn am y dasg o fynd ati i ddathlu pen-blwydd eu mam, Mair Millar o Gricieth, yn 70 oed. Mae'r hyn sydd yma yn enghraifft o ymdrechion teuluoedd i ddal ati a pheidio â gadael i bethau *fynd* yn ystod cyfnod y cyfyngu. Llongyfarchwn ninnau Mair, gan ddiolch iddi am ei chefnogaeth i'r Ffynnon fel cyfrannwr ffyddlon ers nifer o flynyddoedd. – Gol.**



***Mair Millar***

MAE SAWL ffrind wedi sôn mai'r peth anoddaf yn ystod cyfnod y cyfyngiadau presennol yw methu â chael gweld teulu a ffrindiau. Fel sawl un arall o Eifionydd rwyf wedi byw yng Nghaerdydd ers dros ugain mlynedd bellach ar ôl i mi ddod i'r ddinas i fynd i'r Brifysgol, ac wedi ymgartrefu yma. Ond oherwydd y cyfyngiadau dydw i ddim wedi bod adra yng Nghricieth ers dros ddeuddeng wythnos. Dyma heb os y cyfnod hiraf o ddigon i mi fod heb weld fy nheulu a'm ffrindiau. A chyda pawb ohonom yn gaeth i'n tai ar hyn o bryd, pan ddaw ambell achlysur pwysicach na'i gilydd sydd angen ei nodi does dim modd bod hefo'n gilydd yn gorfforol i ddathlu. Ac mae hynny'n brifo.

I mi y mis yma pen-blwydd fy mam, Mair Millar yn 70 oed oedd yr achlysur. Y bwriad wrth gwrs oedd y byddai pawb adra er mwyn i ni gael cyd-ddathlu fel teulu ond o dan yr amgylchiadau doedd dim amdani ond trio mynd ati i feddwl y tu allan i'r bocs a bod yn greadigol. Doedd dim dwywaith mai'r hyn y byddai Mam yn ei golli fwyaf oedd cwmni ei theulu a'i ffrindiau. Felly dyma fy mrawd a minnau'n mynd ati (gydag ychydig o help gan fy nhad a chyfeillion) i greu llyfr atgofion sy'n cynnwys tipyn o hanes fy mam ar adegau gwahanol yn ystod y blynyddoedd.

Ar ôl treulio deugain mlynedd yn gweithio ym myd addysg fe ymddeolodd Mam rai blynyddoedd yn ôl ond ni fu pall o gwbl ar ei hawydd i weithio a chyfrannu at weithgaredd a bwrlwm ei chymdeithas yn y dre. Fe wyddom ni'n dda cymaint mae pobl yn gwerthfawrogi yr hyn a wna gyda Chapel y Traeth, Merched y Wawr a Chlwb y Deillion ym Mhorthmadog i enwi tair cymdeithas. Ond mae 'na lawer mwy na hynny o'r 'pethau bychain' y bydd Mam yn eu gwneud yn dawel bach.

Ddydd Iau, 11 Mehefin cawsom gyfle i ddathlu'r achlysur yn rhithiol. Do, fe gawsom ni gacen a chynnig llwnc-destun a digon o siarad wrth hel atgofion a diolch ein bod yn iach, ac wrth gwrs gyfle i fwynhau. Ac mi oedd hynny'n bwysig yn enwedig felly wrth i ni sôn am greu atgofion newydd pan ddaw'r haul yna ar fryn unwaith eto.

Diolch am y cyfle i sgwennu am Mam yn Y Ffynnon – gan obeithio na cha' i ddim gormod o gerydd ganddi!

***Catrin Durie***

## Cynghorion Doeth

YN EI GOLOFN ddiddorol (yn ôl ei arfer) mae awdur 'Ni'r Ffermwyr' yn Ffynnon Mai yn cyfeirio at ddeg gorchymyn llwyth cynhenid sy'n byw yn Canada.

Deallwn yn awr mai enw'r llwyth yw y Cree a'i fod yn un o'r llwythau cynharaf o drigolion Gogledd America. Erys tua 396,000 ohonynt ac mae oddeutu 117,000 yn siarad eu hiaith eu hunain yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg. Triga'r mwyafrif i'r gogledd a'r gorllewin o Lyn Superior ac mae 27,000 yn nhalaith Quebec.



Dyma ddeg gorchymyn cyflawn y Cree-aid. Ni wyddom a fydd y plant yn eu dysgu ar lafar fel y dysgai plant Cymru y Deg Gorchymyn o Lyfr Ecsodus erstalwm.

### DEG GORCHYMYN LLWYTH Y CREE, CANADA

1. Y Ddaear yw ein Mam; gofalwn amdani.
2. Anrhydeddwch bawb.
3. Agorwch eich calon a'ch enaid i'r Ysbryd Tragwyddol.
4. Mae pob bywyd yn gysegredig; dangoswch barch at bawb.
5. Cymerwch yr hyn sydd ei angen arnoch o'r Ddaear, a dim mwy.
6. Gwnewch yr hyn sydd ei angen er lles pawb.
7. Rhowch ddiolch i'r Ysbryd Tragwyddol am bob diwrnod newydd.
8. Dwedwch y gwir ac am y daioni mewn pobl eraill.
9. Dilynwch guriad calon y cread gan godi gyda'r wawr a gorwedd gyda'r hwyr.
10. Mwynhewch daith bywyd heb adael dim o'ch ôl.




SYLLDREMU. Gair newydd, a gair i'r dim yn y dyddiau sydd ohoni. Sylwais ar y gair mewn trydar gan yr entomolegydd (dyn pry ar lafar gwlad) Dr Hefin Jones ar ei ffrwd Twitter. Daw'r gair i'r fei yng nghyfieithiad J. T. Jôb o'r gerdd 'Leisure' gan W. H. Davies ('What is this life if full of care / We have no time to stand and stare…').

Sylwi, a sylldremu ar un o wiwerod ein prifddinas fu hanes Hefin Jones – ie, syllu a sefyll yn stond i weld 'Y lle rhydd gwiwer gnau ynghudd'. Neges amserol y gerdd ydi nad oes neb yn rhy brysur i 'sefyll a sylldremu' ac os oes rhyw dda wedi deillio o anfadrwydd y Covid siawns nad ydi'r cyfle i gael peth o'n gwynt atom yn un fendith.


*Adar to Crib-y-don, Cricieth*

Sylldermu, a sgwrsio, fu'n hanes innau yng ngardd Crib-y-don, Cricieth, gardd Megan Jones fy mam-yng-nghyfraith. Y testun trafod oedd y ffaith bod adar to wedi nythu am y tro cyntaf yn y blwch ar dalcen y cwt. Cafwyd awr a mwy o ddifyrrwch, a degau lawer o luniau i'w didol ar ôl mynd adra! Rywbryd yn ystod y didol hwnnw y daeth ping y trydar gan Hefin Jones, a 'Hamdden' yn ei chyfanrwydd.


Beth a dâl bywyd fo'n rhy chwim
I sefyll a sylldremu ddim:
Dim saib i sefyll dan y llwyn,
A syllu, fel gwna milod mwyn.
Dim saib i weled, ger y gwŷdd
Y lle rhydd gwiwer gnau ynghudd.
Dim saib i weld, ganolddydd têr,
Y lli, fel wybr, yn llawn sêr.
Na saib, is trem y Brydferth Fun,
I wylio'i dawns, a'i llam a'i llun;
Na saib i wylio'i geneu ffraeth
Yn harddu'r wên o'i threm a ddaeth.
Truan yw bywyd fo'n rhy chwim
I sefyll a sylldremu dim.

Wedi ailafael yn y didol lluniau daeth un i'r fei o bryd blasus i'r cyw a diwedd y daith i'r pry llai ffodus. Llysleuen ydi'r pry bach, ac mae adar to yn dibynnu llawer ar lyslau am eu maeth. Diolch eto fyth i'r entomolegydd Dr Hefin Jones am rannu ffaith wyddonol yn ogystal â pherl barddonol.

T°NIC
Therapydd Harddwch
Cricieth
Am apwyntiad cysylltwch
â Nan ar **(07729) 291 930**

Caron Jones
Plymio a Gwresogi
Gwasanaethau, Gosod ac
Atgyweirio Nwy – Olew – LPG
Ffôn: (01766) 771 017
Symudol: (07731) 148 867
Pen Draw, Minffordd,
Penrhyndeudraeth LL48 6EH
caron89@btinternet.com

MOTOBEICS
GWION PRYS MOTORCYCLES
Nantcyll Uchaf
Pantglas, Garndolbenmaen LL51 9DJ
(01766) 530 831 / (07900) 594 946
Rwy'n cynnig gwasanaeth lleol am bris cystadleuol
Safle MOT
Trwsio a gwasanaethu motobeics o bob math
yn ogystal â 'Quad Bikes'
Gwasanaeth casglu a danfon ar gael

Gwasanaeth Trin Traed
Yn eich cartef
Richard Thomas SrCh.
Ffôn: (01758) 612 384
ar ôl 5 o'r gloch


JOHN TUDOR
Cyfrifydd Siartredig Ardystiedig
CYFRIFON
TRETH AR WERTH
PAYE
TRETH INCWM PERSONOL A BUSNES
CYNGOR I DDATBLYGU BUSNESION
(01758) 701 755 • (07977) 910 925
help@jtudor.co.uk
John Vaughan Tudor FCCA
3 Kingshead, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DR
*Archwilydd wedi ei gofrestru gan*
*Gorff Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig*
ACCA




## Clifford Williams



**1. Cefais fy ngeni a'm magu yn:**
Fy ngeni yn Nhŷ Nanney, Tremadog a'm magu yn Garn

**2. Rwy'n byw yn awr yn:**
Llechwedd, Garn

**3. Fy swydd yw:**
*Hen* ffarmwr

**4. Pa swydd ar wahân i'ch swydd bresennol a fyddech chi yn hoffi wneud?**
Seiciatrydd

**5. Person Sioe neu Eisteddfod?**
Y ddwy

**6. Beth yw eich car presennol?**
Pic-yp o Ddyffryn Ardudwy

**7. Pa gar hoffech chi gael?**
Mi fasa'n well gen i foto-beic fel oedd gen i ers talwm

**8. Pa raglenni y byddwch yn gwrando fwyaf arnynt ar Radio Cymru?**
Rhai ben bore fel *Galwad Cynnar* yng nghwmni Gerallt Pennant

**9. Pa raglenni y byddwch yn eu gwylio fwyaf ar S4C?**
*Heno* wrth gael swper fel rheol

**10. Pa beth fydd yn gwneud i'ch gwaed ferwi?**
Mewnfudwyr yn newid enwa bythynnod, ffermydd a hyd yn oed y clogwyni i'r iaith fain

**11. Pa anifeiliaid anwes sydd yn byw yn eich tŷ chi?**
Tri chi defaid ac un gath, ond y gath ydi'r unig un sydd yn y tŷ

**12. Pe buasech yn ennill pryd o fwyd i dri mewn gwesty moethus 5 seren pa ddau berson arall fuasai'n cael y fraint o'ch cwmmni.**
Muhammad Ali ac Alex Ferguson

**13. Sut fyddwch yn ymlacio?**
Gwylio pêl-droed efo cropar o Glenfiddich

**14. Pa un yw eich hoff siwrnai?**
Dros y Berwyn yn y gwanwyn, yr haf, yr hydref a'r gaeaf i weld Donna a'r teulu

**15. Pa berson ydych yn ei edmygu?**
Martin Luther King

**16. Beth yw eich hoff anifail?**
Dafad farus!

**17. Ar daith hir yn y car pa CDs fyddwch yn gwrando arnynt?**
Johnny Cash yn fyw yn San Quentin, Parti Cut Lloi a Chôr Meibion Llanelli

**18. Sut y byddech yn hoffi cael eich cofio?**
Fel un sy'n edrach ar yr ochr ora i bawb a phopeth yn y lle cynta

**19. Beth sy'n eich digalonni?**
Byd anghyfartal lle mae gan rai filiynau tra mae eraill yn llwgu

**20. Pa amser o'r dydd sydd orau gennych?**
Pan mae'r wawr yn torri

**21. Pryd ac yn lle y buoch hapusaf?**
Yn Llechwedd ers 1983

**22. Gyda phwy y buasech yn hoffi treulio penwythnos?**
Y plant a'r wyrion efo Taid a Nain yn gwledda

**23. Beth yw eich syniad o hapusrwydd perffaith?**
Eistedd ar ochr Craig y Garn ar hirddydd haf a'r haul yn mynd i lawr dros Sir Fôn

**24. Petai'n rhaid i chi adael Cymru pa wlad arall fyddai eich dewis a pham?**
Talaith yr Yukon yn Canada. Pawb yn mynd ymlaen efo'i fusnas heb lawer o ymyrraeth o'r tu allan.

GARETH LEWIS JONES
ADEILADWR
Ymgymerir â phob math o waith adeiladu
ESTYNIADAU • PLASTRO
TRAWSNEWID ADEILADAU
GOSOD A THRWSIO TOEAU
GWAITH CARTHFFOSIAETH
(01766) 810 233

R. L. JAMES
Peiriannydd Gwresogi
Rhodri1@hotmail.com
(07852) 156 064




# Paddy's Plaice

FE GOFIWCH am hanes caffi bach gardd Sŵn yr Afon, Llanystumdwy yn y golofn hon y llynedd. Diau mai tamaid i aros pryd yn wir oedd hwnnw gan fod Patrick a Melanie Watson wedi cau'r caffi bach i wireddu breuddwyd o agor caffi mwy.




Bellach mae'r ddau wedi mudo'u doniau i Paddy's Plaice, siop a chaffi sgod-a-sglod nepell o'r Swyddfa Bost yng Nghricieth. Fel y rhan fwyaf o fwytai lleol maen nhw'n cynnig gwasanaeth têc-a-wê ers rhai wythnosau, a choeliwch chi fi mae'r gwasanaeth yn barod, yn siriol a'r bwyd yn ardderchog. Mi alla i'n bersonol argymell yr hadog, pys a sglodion. Da iawn, iawn oedd o!

Wedi gweithio fel rheolwr am dros 30 o flynyddoedd roedd Paddy yn barod am newid, ac ar ôl gweithio mewn ysgolion fel cymhorthydd am dros ddeng mlynedd roedd Melanie hefyd yn dynn ar ei sodlau. Penderfyniad naturiol felly oedd gwireddu'r freuddwyd a chychwyn ar siwrne newydd gyda'i gilydd. Fe neidiodd y ddau ar y cyfle i redeg y siop a'r caffi.

Clyfar ydi'r enw Paddy's Plaice – 'Paddy' am mai Gwyddel yw Patrick, a 'Plaice' yn chwarae clyfar ar enw i nabod y lle yn syth fel siop sy'n gweini pysgod. Er bod siop sgod-a-sglods yno ers blynyddoedd, gan ei bod fymryn oddi ar y stryd fawr roedd yr enw'n ffordd wych o dynnu sylw at y lle a'r hyn oedd ar werth yno.

Yn fusnes teuluol, mae pawb wedi ymgymryd â'u rolau gwahanol yn naturiol. Melanie sy'n coginio'r bwyd a Paddy'n cymryd y pres, ac yn ôl Melanie mae i Paddy ddelio hefo'r cwsmeriaid yn talu ar ei ganfed gan ei fod yn siaradwr o fri! Gweini mae Mari, y ferch, a Jos y mab yn cadw'r basgedi sglodion yn llawn a'r gegin yn glir. Mewn cyfnod lle nad yw hi'n hawdd i gyflogi o'r tu allan mae cyfraniad a chymorth y plant yn amhrisiadwy.

Cwta wyth mis sydd ers iddyn nhw symud ond maen nhw wedi hen sefydlu. Y pryd mwyaf poblogaidd ydi'r penfras mewn cytew a sglodion. Mae'r cytew yn ysgafn a chreisionllyd ac mae'r penfras ei hun o'r ansawdd gorau. Nid tasg hawdd, ond maen nhw'n plicio a thorri'r tatws i gyd eu hunain felly mae'r sglodion fel rhai cartra. I'r plant darperir bocsys bwyd gyda thegan a diod hefo dewis o selsig, nyget cyw iâr neu ddarnau pysgod mewn cytew. Ond, pwysleisia Melanie, petaen nhw'n dymuno cael rhywbeth gwahanol does dim ond raid gofyn.




Ar y fwydlen hefyd mae 'na gyw iâr 'cigog' gyda chroen creisionllyd, neu focs cyw iâr cymysg gyda nyget cyw iâr, stribedi cyw iâr, popcorn cyw iâr a sglodion. Bob wythnos ceir cynigion gwahanol sydd yn boblogaidd iawn. Ar hyn o bryd cynigir bocs teulu – 2 bysgodyn, 8 nyget cyw iâr, 4 selsig, 8 modrwy nionyn, sglodion enfawr, 4 saws a diodydd, neu Swper Pysgod a Swper Byrgyr i ddau gyda chaws a salad. Digon o ddewis felly.

Er mai saig syml ydi cytew mae o'n bell o fod yn hawdd i'w gael yn iawn. Roedd Melanie'n barod iawn i rannu ei chyfrinach am ei chytew creisionllyd hefo ni. Dyma'r rysáit mae hi'n ei ddefnyddio.

**Cynhwysion:**

1 cwpan o flawd plaen
½ llwy fwrdd o bowdr codi
½ llwy de o halen
½ cwpan o lefrith
½ cwpan o ddŵr

**Dull:**

Cymysgwch y cynhwysion sych hefo'i gilydd cyn ychwanegu'r dŵr a'r llefrith yn ara deg ac yna'i guro'n dda ond gofalwch rhag ei or-guro. Rhowch gynnig arni.

Dywed Melanie bod y cyfnod clo wedi bod yn anodd iawn i fusnesau bach a'u bod fel sawl busnes arall wedi cael eu

heffeithio'n ddifrifol. Ar hyn o bryd ar benwythnosau yn unig y maen nhw'n agor, ac er y byddan nhw fel arfer yn ddiolchgar am fusnes ymwelwyr tydi hynny ddim yn bosib nag yn gyfrifol ar hyn o bryd. Er mwyn eu diogelu eu hunain a'u cwsmeriaid gofynnir i bawb ffonio (01766 523504) i archebu bwyd a slot amser penodol ar gyfer casglu. Ond os na all y cwsmer adael y tŷ, gellir danfon y bwyd. Maen nhw'n awyddus i gynnig gwasanaeth ac yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd diweddar. Does ryfedd bod cwsmeriaid yn dod 'nôl dro ar ôl tro ac yn anfon negeseuon o ddiolch.

Edrych mlaen y maen nhw rŵan i fedru agor yn llawn amser ac i adeiladu ar y busnes. Mae'r caffi ar gau ar hyn o bryd wrth gwrs, ond mae 'na edrych mlaen at gael bwrlwm pobl yn mynd a dod sut bynnag y bydd hynny yn y normal newydd.

Fel arwydd o ddiolch i'r gymuned a 'rhoi yn ôl' mae teulu Paddy's Plaice wedi prynu sgrin byrsbecs i'w defnyddio gan Lyfrgell Cricieth. Er nad ydi'r llyfrgell wedi medru agor eto roedd Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd yn ddiolchgar iawn am y rhodd gan y bydd y sgrin yn ddefnyddiol iawn pan agorir y llyfrgell i'r cyhoedd.


**HARI ROBERTS GROUNDWORKS**

Cil y Castell, Cricieth
LL52 0EG



- Walio
- Codi ffensys
- Slabio
- Gosod draeniau
- Ystod eang o waith peirianyddol

**Ffôn: (01766) 522 469 / (07768) 312 596**



***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

**Ewyllysiau Cymraeg gan**
**Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael ewyllys yn y Gymraeg

cysylltwch trwy ebost:
**ruthcjones25@aol.com**
**(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)**


# Arwyddion yr amserau




'MAE rhywun yn rhywle yn gwybod', yn saff i chi, ond hyd yn hyn does neb yn medru dweud i sicrwydd beth fydd tynged Capel Moreia, Llanystumdwy yn y dyfodol. Yr wythnos diwethaf newidiodd yr arwydd o'i flaen oedd yn hysbysebu ei fod ar werth i fod yn arwydd oedd yn datgan ei fod wedi ei werthu. I *bwy* wyddom ni ddim hyd yn hyn ond y mae yna ryw dristwch wrth weld cyfnod yn dod i ben.

Wedi i'r Moreia gwreiddiol wrth y bont fynd ar dân ar 12 Awst 1935 aed ati yn ddiymdroi i adeiladu capel newydd. Cafwyd tir yn rhad ac am ddim gan Mr J. E. Greaves, Bron Eifion ar yr amod mai Clough Williams Ellis fyddai'r pensaer a fyddai'n cynllunio'r capel newydd, a agorwyd ar y safle presennol ar 23 Mehefin 1937. Cofnodwyd yr hanes gan Margiad Elias yn rhifyn Rhagfyr 2018 o'r Ffynnon ar ôl i'r capel gau ym mis Medi y flwyddyn honno.

# Ateb 'Golygfa? Pa olygfa?'

YN YR ARHOSFAN ar ben rhiw Caerdyni, Cricieth oeddwn i'n edrych ar y plac welsoch chi yn rhifyn Mai, a dyma ichi'r olygfa fendigedig oedd o'm blaen.

*Cricieth yn ei holl ogoniant*





# Yng nghesail y moelydd unig: 1

## Bronwen Naish

**Yn dilyn erthygl Gwen Owen am Gwm Pennant yn rhifyn Mawrth o'r Ffynnon, a'r sylw cryno a roed i Bronwen Naish a'i diddordeb mawr mewn cadw gwenyn, dyma ofyn iddi a fuasai mor garedig ag ysgrifennu tipyn o'i hanes ar gyfer ei gyhoeddi. Diolch iddi am gytuno i wneud hynny a dyma'r cyfraniad cyntaf o blith casgliad o erthyglau a gyhoeddir yn ystod y misoedd nesaf. – Gol.**

UN AR BYMTHEG oed oeddwn i pan welais i Gwm Pennant gyntaf erioed a hynny ar ddiwrnod hyfryd o haf fel dyddiau Mai eleni. Roedd fy nhad wedi prynu fferm Moelfre gan ychwanegu defaid at fferm gymysg ein cartref ym Mhandy Llywenan yn Ynys Môn ac roeddem fel teulu i symud draw i'r mynyddoedd.

Roedd y lle yn hudolus. Y gwrychoedd yn drwm o flodau gwyllt – blodyn neidr, clychau'r gog, botwm crys, pabi Cymreig, bysedd y cŵn a rhosod gwyllt. Fe gofia i arogl awyr y mynydd a oedd mor wahanol i wyntoedd y môr ar Ynys Môn. Yr oedd fel camu'n ôl o'r byd. Ro'n i wrth fy modd ac mi dreuliais i oriau yn archwilio pob twll a chornel o'r ardal efo Edward fy mrawd iau.

Cyn bo hir daeth yn amser i mi adael a mynd am Fanceinion i'r Coleg Cerdd Brenhinol i astudio'r soddgrwth, ac o ganlyniad chefais i fawr o gyfle i fyw am gyfnod da o amser yn y Cwm. Roeddwn i wedi fy nghyfareddu gan gerddoriaeth a chyn bo hir iawn fe briodais, yn bur ifanc, efo Roger Best, un o chwaraewyr fiola gorau ei genhedlaeth a chawsom, maes o law, bump o blant. Ar ôl cyfnod Manceinion fe symudon ni i'r gogledd i Newcastle lle daeth Roger yn un o sylfaenwyr ac aelod o Gerddorfa Sinffonia Frenhinol y Gogledd. Newidiais innau fy offeryn a throsglwyddo fy sgiliau i gychwyn delio efo'r bas dwbl a oedd wedi fy swyno erioed, a chyn bo hir cefais gyfle i chwarae yn y gerddorfa.

Roedd y cyfnod hwn yn un cyffrous i fod yn gerddor. Fe sylweddolodd llywodraethau bod y Celfyddydau'n bwysig i bobl a chymdeithas, a daeth arian ar gael i gefnogi cerddoriaeth glasurol ymhobman. Tan hynny roedd y gerddorfa fach wedi datblygu'n bwyllog cyn iddi ddod o dan adain Cyngor y Celfyddydau a dyna pryd y cawsom swyddi parhaol. Yn ystod y cyfnod hwn fe berfformiodd cerddorion blaenllaw eu dydd efo'r gerddorfa, pobl fel Paul Tortelier, André Previn, Yehudi Menuhin, Rostropovich, Kyung Wha Chung, Horowitz, Jimmy Galway, Johnny Dankworth a sawl un arall. Cyfnod ac amser rhyfeddol.

Un perfformiwr meistrolgar iawn oedd chwaraewr bas dwbl ifanc o'r enw Gary Karr a chwaraeai'r offeryn gydag ystwythder feiolinydd gan gynhyrchu sain rhyfeddol a oedd mewn gwirionedd yn annisgwyl.




***Bronwen Naish***

Penderfynais yn y fan yr hoffwn innau ddysgu sut i chwarae'r offeryn i'r safon yma a bûm mor ffodus â chael treulio chwech wythnos yn astudio yn ei gwmni yng Nghanada. Chwe awr y dydd o ymarfer oedd y drefn.

Y cam nesaf ar ôl dod adref oedd mynd ati i geisio dod yn unawdydd ar y bas dwbl. Doedd hi ddim yn dasg hawdd o gwbl a hynny'n bennaf oherwydd canfyddiad pobl o faint a sŵn dwfn yr offeryn, a doedd o ddim yn ennyn hyder y gwrandawyr. Mi es ati i lunio trefniannau o ddarnau enwog i'w perfformio gan feithrin ychydig o wreiddioldeb ar yr un pryd, a mynd ati i hyrwyddo tipyn ar y gamp trwy gyfrwng lluniau ac ymddangosiadau ar raglenni fel *Woman's Hour*. Derbyniais gryn sylw o dipyn i beth ac o ganlyniad cefais wahoddiadau i berfformio mewn clybiau cerddorol a gwyliau celfyddydol.

Ond roedd cymylau ar y gorwel a newid ym mrig yr awel...

IGAM OGAM
CYNLLUNWYR GWALLT
44 Stryd Fawr
Cricieth
(01766) 522 217
*Arbenigo mewn torri, lliwio a phermio*




# Ni a nhw

RWYF yn ysgrifennu'r golofn hon ddiwrnod dymchwel cofeb Edward Colson a'i gwthio i'r harbwr ym Mryste. Bu protestiadau di-drais trwy'r byd yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn Minneapolis. Dyn cyfoethog, creulon yn masnachu pobol oedd Colson ac er na ellir dileu hanes Bryste, mewn cornel o Arddangosfa o Hanes Caethwasiaeth y dylai fod. Mae *peidio* cydymdeimlo â'r protestwyr – er gwaethaf Cofid-19 – yn fethiant i ddeall beth yw cydraddoldeb. Roedd 11,000 wedi arwyddo deiseb yn gofyn am i gofeb Colson gael ei symud a does dim ond gobeithio rwan y bydd y criw fu'n gyfrifol am ddymchwel y gofeb yn mynd at yr heddlu i gydnabod hynny ac i wynebu'r canlyniadau. Hyd yma bu protestio'r mwyafrif yn dawel a di-drais.

Rhwng 1672 ac 1689 yn unig symudwyd dros 100,000 o gaethweision mewn cadwynau o Affrica i'r Caribî ond bu farw 20,000 ar y daith a'u taflu dros y bwrdd heb na pharch nac urddas. Rhwng 1700 ac 1807 roedd tua 50,000 yn flynyddol yn cyrraedd planigfeydd, rhai fel Picton neu'r Arglwydd Penrhyn ond hefyd rai llai adnabyddus fel Thomas Philips, Anthony Bacon a Thomos Williams, Sir Fôn – y dyn cyfoethocaf yng Nghymru yn 1802. Fe'u hanrhydeddwyd i gyd.

Ond, diolch i Dduw, mae yna ochr arall i'r hanes. Cyn-gaethwas oedd Frederick Douglass a ymwelodd â Chymru yn 1846 gan annerch tyrfa anferth yn Wrecsam. Gwnaeth y dorf argraff arno a phan aeth yn ôl i America soniodd am gefnogaeth y Cymry. Daeth i adnabod Cymry yn Efrog Newydd 'who are, to a man, abolitionists' meddai. Yn ei bapur *Anti Slavery* mae'n cydnabod ei ddyled i gylchgrawn Cymraeg, *Y Cenhadwr Americanaidd.* Golygydd y *Cenhadwr* oedd Robert Everett, gweinidog gyda'r Annibynwyr o'r Gronant, ond gwrthododd Annibynwyr America gefnogi'r *Cenhadwr* ac o hynny ymlaen Everett a'i deulu fu'n argraffu a chynnal y cylchgrawn. Bu'n ymgyrchu i ddiddymu caethwasiaeth am ddeugain mlynedd.

Un arall oedd Morgan John Rhys, gweinidog efo'r Bedyddwyr o Lanbradach a aeth i America i sefydlu Gwladfa Gymraeg a dileu caethwasiaeth. Ym Mryste Edward Colson y gwelodd Morgan Rhys uffern y fasnach ar ei gwaethaf, ac aeth yntau i America a chael ei adnabod fel Cymro arall a safai dros ryddid. Cafodd ei gydnabod fel gweinidog o Gymro angerddol ei safiad. Ef oedd awdur y faled enwog 'Achwynion dynion duon mewn caethiwed truenus yn Ynysoedd y Siwgwr'.

Pan f'och yn gweled siwgwr,
O, cofiwch fel y cawd,
Trwy lafur annaturiol
Cystuddiol caethion tlawd:
Os yw yn felys gennych,
Bu'n chwerw dost i ni:
Yn sydyn yr arswydech
Pe clywech chi ein cri.

Mae'r teitl yn codi gwên. Nes cofio am George Floyd. Dilewyd un math o gaethwasiaeth ond mae hilyddiaeth yn bla ac wedi treiddio i ddiwylliant a chyfundrefnau'r dyn gwyn. Fe allwn fod yn falch bod Cymry ddoe a heddiw wedi sefyll gyda'r caeth – o Douglass i Paul Robeson, ac i Desmond Tutu a gormes apartheid.

Ond mae hilyddiaeth yn llechu ynom. Geiriau cyffredin mewn anwybodaeth ddiniwed oedd geiriau'r rhai yn y gorffennol a aeth i Ysbyty Bangor a dod yn ôl a sôn am y meddyg: 'Dyn du oedd o, ond mi oedd o'n neis iawn!'

Ddim 'ni a nhw' ond yn un.



Cwmni TARIAN Cyf.
**Cyngor ar Bensiynau a Buddsoddiadau**
Gwasanaeth Ariannol i Fusnesau ac Unigolion
Cysylltwch ag Aled Evans
Ffôn: (01758) 613 030 • (07786) 015 186
Ebost: post@tarian.co.uk
**www.tarian.co.uk**
Cwmni Tarian Cyf. • 7 Sgwâr y Farchnad • Pwllheli LL53 5RU
Mae cwmni Tarian Cyf. yn gynrychiolydd apwyntiedig o LJ FINANCIAL PLANNING LIMITED, wedi ei awdurdodi a'i reoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol


W. H. Evans
Melin Llecheiddior, Bryncir
Ffôn/Ffacs: (01766) 530 635
**Masnachwyr Amaethyddol**
- Welingtons
- Dillad Glaw
- Offer ar gyfer y fferm
- Stanciau ac offer Ffensio
- Gwrteithiau
- Glo



- Bwydydd Anifeiliaid, bagiau mawr a bach
- Bylc
- Bwyd Cŵn
- Pwlp Betys
- Gwair a Gwellt
- Blociau




## Pluen yn ei chap



OS YDACH chi am i rywun *neud* rhywbeth, gofynnwch i berson prysur, meddan nhw. Mae Gwenno George yn sicr yn berson o'r fath, ac yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Drysorydd Cenedlaethol ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Mudiad Meithrin – pluen wych yn ei chap.

Bu Gwenno'n gweithio ym maes cyllid ers iddi raddio o Brifysgol Caerdydd mewn Mathemateg a Cherdd. Bu'n gweithio i Blaid Cymru cyn hyfforddi fel cyfrifydd gyda chwmni Acuity Law Limited, lle mae'n dal i weithio heddiw fel Prif Swyddog Cyllid. Wedi meithrin profiad o fyrddau a llywodraethiant yn ei gwaith roedd Gwenno'n awyddus i rannu ei phrofiad a'i sgiliau ag eraill. Ymunodd â bwrdd cyfarwyddwyr Menter Caerdydd rai misoedd yn ôl, cyn cael ei phenodi i'w swydd ddiweddaraf gan ddechrau yn swyddogol ar 1 Mehefin.

Wedi treulio deuddeng mlynedd yn byw yn y brifddinas mae Gwenno'n rhoi portread mynwesol iawn o'r ddinas sy'n gartref iddi hi a'i dyweddi, Luke. 'Fedri di ddim cerdded lawr y stryd yn Grangetown heb weld rhywun ti'n nabod' meddai, ac wrth gwrs mae hi'n falch iawn o gwmni ei chwaer fawr, Manon, a'i chefndryd Owain ac Elin a'u partneriaid – a Teri'r *dachschund*, aelod diweddaraf y teulu – yn y ddinas.

Roedd yn rhaid gofyn i Gwenno a oes ganddi hiraeth am adra weithiau. 'Lot o hiraeth!' meddai'n syth. 'Am ogla'r môr, Taid ac Wmffra, Nain, Dad a Mam a thawelwch nad oes modd ei gael yng Nghaerdydd.'

Beth am gyfnod y Cofid-19? Fel cymaint o weithwyr proffesiynol eraill mae Gwenno'n gweithio o'i hystafell wely sbâr ar hyn o bryd, ac yn falch o gael gweld Manon unwaith eto ar ôl i'r caethiwed gael ei lacio ryw ychydig. Mae hefyd yn cael mwynhau agweddau newydd o'r ddinas. Er mor rhyfedd ydi tawelwch Caerdydd mae Gwenno'n disgrifio'r cyfle i sylwi ar rai o adeiladau hanesyddol y ddinas a'u gwerthfawrogi, fel adeiladau urddasol Heol y Santes Fair, a hynny heb y prysurdeb a'r bwrlwm arferol.

Braf iawn oedd cael sgwrs efo chdi, Gwenno, a'r wên lydan a'r sgwrs fyrlymus yr un mor siriol ar sgrin y ffôn fach â phetaem ni'n rhannu sgwrs ar y prom yng Nghricieth. Pob dymuniad da i ti!

***Naomi Jones***

# Ar ei feic



***Adam Wood***

GŴR y prysurodd hi arno ers dyfodiad y feirws ydi Adam Wood o Lanarmon. Mae ef yn un o'r gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd gyda Beics Gwaed Cymru.

Yn ystod yr wythnos bydd wrth ei waith ym Melin Plas Du ond gall fod yn gwibio ar ei foto-beic coch am un awr ar ddeg ar y Sadwrn a'r Sul yn dosbarthu unrhyw beth y gellir ei gludo'n ddiogel ar foto-beic – gwaed, dyweder, meddyginiaethau neu ganlyniadau profion.

Aelod o grŵp Gogledd-orllewin Cymru o'r Beics Gwaed yw Adam. Mae tri moto-beic yn y ganolfan ym Mangor ac ymestyn eu tiriogaeth o Harlech i Ynys Môn i Lan Clwyd. Os bydd angen anfon rhywbeth ymhellach fe'i trosglwyddir i grŵp arall i gyrraedd pen y daith.

Cyn ymgymryd â'r gwaith bu'n rhaid i Adam brofi ei fod yn foto-beiciwr o'r radd flaenaf a phasiodd y prawf ym mis Medi y llynedd. Cyflenwir petrol i'r beiciau yn rhad ac am ddim gan gwmni BP.

Mae Adam, sy'n hanu o Stoke-on-Trent, a'i briod Kate yn byw yn Llanarmon ers pum mlynedd.

**Belio a Lapio Byrnau Mawr**
**Rotospeicio gyda Thractor a Pheiriant Torri Gwrychoedd**
Cysylltwch ag
**Erfyl Lloyd**
CASTELLCOED
CHWILOG

Ffôn:
**(01766) 810 396**

# Cofio Mrs Nan Jones

**Ar 14 Mai yn 94 mlwydd oed bu farw Mrs Annie Mary Jones (Nan), neu fel yr adnabyddid hi gan lawer ohonom Mrs T. R. Jones, neu'n syml 'Mrs TR'. Dyma ran o'r deyrnged a dalwyd iddi yn yr angladd ym Mynwent Chwilog gan y Parchedig Christopher Prew. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Meryl, Eleri a Bethan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.**



MAE'R TERM 'pen teulu' yn cael ei ddefnyddio'n fynych i ddisgrifio llawer o bobl ond yn yr achos hwn mae'r teitl yn gweddu i'r dim. Nan Jones oedd 'pen y teulu' – hi oedd y canolbwynt, yn peri iddynt wenu a chwerthin ar adegau a'r uned deuluol yn golygu popeth iddi.

Hanai o Rydyfelin ger Aberystwyth ac roedd i'r ardal honno le cynnes iawn yn ei chalon ar hyd y blynyddoedd. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio am ychydig fel ysgrifenyddes i gyfreithiwr, ac yna derbyniodd gais i fynd i weithio i fudiad hynod adnabyddus yr Urdd a bu'n ysgrifenyddes iddyn nhw am flynyddoedd. Roedd ei chysylltiad â'r Urdd yn destun balchder mawr iddi. Yn wir, bu'n sôn am ei hatgofion o weithio hefo'r mudiad ar Radio Cymru ychydig o flynyddoedd yn ôl, pan oedd yr Urdd yn dathlu pen-blwydd arbennig.

Saith deg o flynyddoedd yn ôl i'r flwyddyn hon priododd â'r annwyl Barchedig T. R. Jones. Dyma i chi bartneriaeth glos trwy flynyddoedd y weinidogaeth ac i'r diwedd. Pan fyddai Mrs Jones yn sôn am 'Tom', chwedl hithau, roedd yna bob amser gymysgedd o anwyldeb ac edmygedd yn ei llais. Bendithiwyd yr aelwyd â thair o ferched – Meryl, Eleri a Bethan.

Fel dwi wedi crybwyll, y teulu oedd pob dim i Nan. Yn fy meddwl gallaf weld Mrs Jones yn eistedd yn ei chadair yn y cartref yn 23 Heol Newydd, Porthmadog, y ffôn ar y bwrdd bach yn ei hymyl a'r radio ar ei glin a'r teulu i mewn ac allan o'r tŷ trwy'r dydd. Yn wir, o'r tŷ, Nan 'reigned supreme'!

Roedd ganddi ddiddordeb yn ei chymdogaeth a byddai'n cadw i fyny hefo'r newyddion lleol. Yn aml iawn hi fyddai'n rhoi newyddion i'r plant a hithau ddim yn symud o'r tŷ! Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd unrhyw newyddion da o fewn y teulu fel petasai'n ysbrydoliaeth o'r newydd iddi, a'r digwyddiad hwnnw oedd prif destun ei sgwrs wedyn.

Bu'n briod, mam, mam-yng-nghyfraith, chwaer, modryb, nain a hen nain arbennig. Derbyniodd bob gofal posib gan y teulu i'r diwedd a hwythau'n ddiolchgar i Dduw am un a gafodd 94 o flynyddoedd ar y ddaear, ac am drysorfa o atgofion hapus a hwyliog o amseroedd da yn ei chwmni. Gwerthfawrogai'r teulu y gofal arbennig dderbyniodd Mrs Jones yng Nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn, a'r gefnogaeth a roddwyd iddynt hwythau fel teulu.

Fel ei phriod T. R. roedd ei ffydd yn ddiysgog ac yn gadarn. Meddai ar y gallu i dderbyn trefn bywyd a throeon y daith yn ddirwgnach. Roedd ganddi ddywediadau bachog y byddai'n eu defnyddio yn naturiol ym mhob sgwrs, ac un ohonynt oedd 'Such is life'! Yng nghanol y cyfnod ansicr hwn dwi'n clywed ei geiriau – 'Such is life'.

Diolchwn i Dduw amdani. 'Yr Arglwydd a feddwl amdanaf, a dyna fy nefoedd am byth.'

***C. J. Prew.***



Bryan Williams
Gemydd – Oriadurwr – Ysgythrwr
80 Stryd Fawr, Pwllheli
(01758) 612 279
Cwpanau – Tariannau – Tlysau a.y.y.b. ar gyfer pob achlysur
Trwsio clociau ac oriaduron
Gemwaith o bob math
Tocynnau Anrheg
Ysgythru ar wydr, tlysau, modrwyau a.y.y.b.
Stoc helaeth o Aur Clogau, Citizen, Nao a Royal Selangor
Hefyd: Gemydd J & L
81 Stryd Fawr, Pwllheli
(01758) 612 558



Tom Parry a'i Gwmni
80 Stryd Fawr, Porthmadog
Ffôn: (01766) 512 505 / 513 164
Syrfewyr, Arwerthwyr a Goruchwylwyr Ystadau
Arwel Williams FRICS
Phil Williams MRICS

O Ddrws i Ddrws
(01758) 721 777
oddrwsiddrws@yahoo.co.uk
www.oddrwsiddrws.org
Gwasanaeth newydd ar gael i ddanfon pobl o gymuned Llanystumdwy i'r Feddygfa am £2 y pen. Mae O Ddrws i Ddrws ar gael i'ch danfon i unrhyw le os ydych chi'n cael trafferth cyrraedd trwy unrhyw ffordd arall.
Ffansi gwirfoddoli? Cysylltwch:
O Ddrws i Ddrws
Drws Agored, Stryd y Plas, Nefyn LL53 6HP
Rhif elusen 1098057

Cyfrifwyr Lleol
Dewch am sgwrs i weld os gallwn fod o wasanaeth i chi
Paratoi Cyfrifon
Treth ar Werth (MTD)
Cadw Llyfrau Ariannol
Ffurflenni Treth
Enillion Cyfalaf
Treth Etifeddiaeth
Cyflogau a Biwro BACS
Digideiddio'r Dreth (MTD)



Griffith, Williams & Co.
CYFRIFWYR SIARTREDIG A CHYNGHORWYR BUSNES | CHARTERED ACCOUNTANTS AND BUSINESS ADVISERS
(01758) 701 701
post@griffithwilliams.co.uk
www.griffithwilliams.co.uk

# A MANAG AUR

DYMA atebion y 'Pos Papur Newydd' a ymddangosodd yn rhifyn Mai ar y we: 1 Newyddion y Dydd 2 Tudalen Llythyrau 3 Adran Busnes 4 Penawdau 5 Posau a Chroesair 6 Ffotograffau 7 Golygyddol 8 Teledu a Radio, 9 Adran Chwaraeon 10 Rhagolygon Tywydd.

Bwyd plaen i rai ond mae eraill fel fi yn hoffi ychwanegu cynhwysion o bob math i ychwanegu at flas neu ansawdd pryd o fwyd, megis **saws brown** neu **mayonnaise**. Dyna'r pos y tro yma: deg o wahanol gynhwysion a ychwanegir ar neu efo'ch bwyd o dro i dro. Gobeithio y cewch **flas** ar y datrys!

### ****Gair o Eglurhad* ***

Tra pery pryderon ac ansicrwydd cyfnod yr haint presennol ni fyddwn yn ystyried pos 'A Manag Aur' fel cystadleuaeth hyd nes daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig ***i beidio*** ag anfon atebion fel arfer mewn ebost na thrwy'r post. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y pos yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori tra'n hunan-ynysu neu'n goroesi'r caethiwo! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Cadwch yn ddiogel ac yn iach. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael yn y gystadleuaeth unwaith eto.

## Pos Efo Bwyd

1. PA UN HER PAUL *(5,1,5)*

   _ _ _ _ _   _   _ _ _ _ _

2. TŶ SŴ SIMSAN *(4,6)*

   _ _ _ _   _ _ _ _ _ _

3. NIFER GÂR G.B. *(6,4)*

   _ _ _ _ _ _   _ _ _ _

4. WÂST 'SA MOTO *(4,6)*

   _ _ _ _   _ _ _ _ _ _

5. NA, FESUL HAD *(5,5)*

   _ _ _ _ _   _ _ _ _ _

6. MM….LETYS, RWDAN *(7,5)*

   _ _ _ _ _ _ _   _ _ _ _ _

7. CLOI PRAM *(4,4)*

   _ _ _ _   _ _ _ _

8. A LLWGU'R SAESON *(4,8)*

   _ _ _ _   _ _ _ _ _ _ _ _

9. CIPIA LIL *(8)*

   _ _ _ _ _ _ _ _

10. O'M DATGAN ACW *(6,5)*

    _ _ _ _ _ _   _ _ _ _ _

*Diystyrwch bob atalnodiad. Cofiwch mai un llythyren yw 'ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th'.*

WONDERLING TRAVEL
12 Y Maes : Pwllheli
Gwynedd LL53 5HD
01758 703 194
sales@wonderlingtravel.co.uk
www.wonderlingtravel.co.uk

E. F. & E. O. WILLIAMS a'u meibion
Ymgymerwr Amaethyddol a Chario
Chwalu Calch a Llwch
Profi Pridd di-dâl • Torri Silwair a Phorfa
Cyflenwyr Tywod, Grafael a Cherrig Traenio
Y Tŷ Gwyn, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL53 6AY
(01758) 720 246 neu 720 333






*Cerddwr yn mwynhau'r olygfa ar ôl dringo'r Grib Goch*

WEL, dyma ddydd hiraf y flwyddyn ar ein gwarthaf. Er holl helbulon y byd mae'r mynyddoedd yn dal yno, ac yn ystod haf hen ffasiwn y mis diwethaf roedd yr Wyddfa i'w gweld yn glir bob dydd o'r tŷ acw. Hawdd deall sut y tyfodd ein hoffter o grwydro'r uchelfannau. Maent yn ennyn chwilfrydedd. Pam eu dringo? Am eu bod yno yw'r ateb enwog. Ond pan ynganodd George Mallory y geiriau hynny ychydig fisoedd cyn colli ei fywyd ar fynydd ucha'r byd yr oedd mynydda yn gamp bur wahanol i brofiad y rhelyw wrth gerdded yr Wyddfa heddiw.

Wrth reswm bu sefydlu rheilffordd ar fynydd uchaf Cymru yn sbardun i gychwyn ar yr ymchwydd anferth yn y niferoedd sy'n ymweld â fo. I'r rhai sydd am ei defnyddio mae'n osgoi'r her gorfforol o gyrraedd y brig, a dod i lawr sydd yn aml yn fwy poenus. O brofiad dywedwn mai cerdded i'r copa wna'r mwyafrif. Mae'r her gorfforol a'r awydd i gyflawni yn parhau ynom.

Erbyn heddiw mae ticio'r blwch arbennig hwn yn llawer haws a mwy diogel na phan sefydlwyd y rheilffordd. Er yr erydu arnyn nhw mae llwybrau clir i'w dilyn, ac o ddilyn y prif lwybrau prin y byddwch mewn gwirionedd ar eich pen eich hun. Y tro diwethaf i mi fod i fyny nid oedd y term 'ymbellhau cymdeithasol' yn bod hyd ag y gwn i. Anodd gweld sut y medrir ei weithredu yn y caffi, yn y ciw i gyffwrdd y copa nac yn wir am chwarter awr olaf y daith pan mae'r llwybrau'n dod ynghyd.

Ond mae mawredd y mynyddoedd i'w canfod y tu hwnt i'r prif lwybrau, a rhan yn unig o'r profiad yw'r ymdeimlad o gyflawni gorchest. Mae yno rywbeth ysbrydol anodd ei esbonio. Mae dyn yn sylweddoli ei faint ynghanol anferthedd y mynydd, sylweddoli ei fyrhoedledd o gofio oed y digwyddiadau a'u siapiodd nhw, ac yn sylweddoli ei ddiniweidrwydd yng ngafael yr elfennau.

Am ryw reswm un gerdd yn unig sydd gan T. Rowland Hughes yn y 'Flodeugerdd' ond mae'n werth troi ati. Mae o ar 'Y Grib Goch' ac anoga'r darllenydd deirgwaith i weiddi, cyn ei atgoffa bob tro pa mor ofer yw'r weithred honno. Ni all sŵn y llef gynhyrfu'r mynydd – prin y gellir ei chlywed yn rhu'r gwynt – a pha ddiben geiriau beth bynnag 'onid doe y ganwyd hwy, y baban-glebrwyd hwy mewn ogof fan draw?'

Mae'r llun y mis yma o gerddwr yn mwynhau'r olygfa wedi dringo'r Grib Goch a hyd yn oed ar dywydd braf mae cymylau'n pasio heibio. Man i'r dewr a'r profiadol yw'r Grib Goch, a mentro i'r cyffiniau ar lwybr haws wnes i i dynnu'r llun!

Haws eu cyrraedd efallai yw'r golygfeydd o ben uchaf Cwm Pennant wrth ddod i lawr o Fwlch y Ddwy Elor. Mae golygfa wych a mainc fymryn uwchben y bwlch i gyfeiriad Crib Nantlle. Fel cymaint o'n cymoedd bu dyn yma yn ysbeilio. Elw'r chwarel yn dryllio'r harddwch a dryllio bywydau gweithwyr fel y tystia enw'r Bwlch. Ond eiddo natur a'r mynydd yw'r fuddugoliaeth yn y pendraw.


Trwy Llŷn ac Eifionydd
Glanhawr Simdda
Cysylltwch ag
Osian Williams
ar (01758) 720 202
neu (07812) 786 035


H. E. Hughes & Co
Contractwyr Amaethyddol
Bron Eifion Farm, Cricieth
Ffôn tŷ: (01766) 522 189 • Symudol: (07974) 700 804
Rhif TAW: 862 2585 12
Belio a lapio, Torri, chwalu a hel silwair
Torri gwrychoedd
Chwalu slyri gydag 'umbilical chord' ar wyneb y tir neu injectio



# DIOLCH

Dylid anfon diolchiadau y dymunir eu cyhoeddi yn Y Ffynnon ynghyd â thâl o £2 at Margaret E. Jones, Bryn Siloh, Chwilog. Cydnabyddir pob cyfraniad sydd dros £2 yn y golofn ‘Rhoddion’. Diolch yn fawr i bawb am bob cydweithrediad.

DYMUNA teulu a chyfeillion agos Beti Wyn Owen, 9 Garth Terrace, Porthmadog ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt mewn cyfnod anodd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Bet, rhoddion sydd bellach wedi eu dosbarthu fel a ganlyn: £1006 i Gronfa Staff Cartref Gofal Plasgwyn, Pentrefelin; £500 yr un i Gangen Gwynedd a Môn o Glefyd Motor Neurone a hefyd tuag at y gwaith ymchwil i’r clefyd yn genedlaethol.

DYMUNA Eirlys, Gwenda a theulu y ddiweddar Nellie Thomas, Gefail y Bont, Efailnewydd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a hwyliog iawn. Diolch hefyd i’r staff ym Mhlas y Don a fu’n gofalu mor arbennig amdani yn ystod ei chyfnod yno. Hefyd diolch i’r Parch. Bryn Williams am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i’r ymgymerwyr Huw Jones Pontllyfni ac Ifan Hughes Llanaelhaearn. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Gyfeillion Plas y Don.


DYMUNA Rhian a Iola, Rhosfawr ddiolch o galon i deulu, ffrindiau, cymdogion a chydnabod o bell ac agos am y caredigrwydd ddangoswyd tuag atynt wedi colli eu tad, Mr Ieuan Jones, Bryn Ffynnon. Diolch am drefniadau trylwyr a pharchus Ifan a Nia, Garej Ceiri ac am wasanaeth Popty Lleuar. Bydd y rhoddion hael a gasglwyd er cof am eu tad yn cael eu rhannu rhwng Cymdeithas Cŵn Defaid Gogledd Cymru ac ymchwil at Ddadfaeliad Maciwlaidd.

DYMUNA Euronwy Jones a’i theulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn y brofedigaeth ddwys o golli Evan, Isfryn, Y Ffôr – gŵr, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion hael tuag at Ward Alaw. Diolch hefyd i Feddygfa Rhydbach am eu gofal arbennig, i’r Parch. R. O. Roberts am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd, ac i Ifan Hughes Llanaelhaearn am ei drefniadau trylwyr a gofalus. Diolch yn fawr.

DYMUNA Eirlys Roberts, Sŵn y Nant, Lôn Merllyn, Cricieth ddiolch o galon i’w theulu ac yn arbennig i’r plant ac i ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a rhoddion dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 ddechrau’r flwyddyn. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

# Rhoddion

| | |
|---|---|
| Mair Millar, er cof am Beti Wyn | £8 |
| Eirlys Roberts, Cricieth | £8 |
| Rhian a Iola, Rhosfawr | £8 |
| Euronwy Jones, Y Ffôr | £8 |



Elis Williams
- Gwasanaethwr arbenigol AGA, Rayburn a boeleri olew
- Gosod stof llosgi coed
- Gwaith plymio

CEFN CRIN, LLANGYBI, PWLLHELI
RHIF FFÔN: 07814056330

IFAN HUGHES
TREFNWR ANGLADDAU
Ceiri Garage
Llanaelhaearn
**Ffôn (01758) 750 238**
*Gwasanaeth personol 24 awr y dydd*

Canolfan Ffensio Glasfryn
Ffordd Llanaelhaearn
**Postiau a pholion wedi’u trin**
**Rhisgl coed**
**Paneli gardd**
**Coed tân**
**Planciau o bob maint**
**Ffôn: (01758) 750 623**
Llawer peth anghyffredin yn bosib – ffoniwch i holi mwy.

STRAIN A’I GWMNI
CYFREITHWYR
Gwaith teulu • Achosion sifil neu iawndal • Trosedd
14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd LL53 5DH
(01758) 455 500 www.strainaigwmni.cymru

Gwasanaeth **SPICK ‘N’ SPAN**
Amcan bris rhad ac am ddim, dim ond galwad ffôn i ffwrdd:
- Glanhau carpedi a chlustogwaith
- Glanhau swyddfeydd
- Clirio tai a glanhau
- Gofal waith adeiladau
- Torri gwellt a thrimio gwrychoedd
- Glanhau ffenestri hyd at 60 troedfedd gan gynnwys heulfannau
- Glanhau carafannau, ceir a chychod (tu mewn a thu allan)
- Eich holl anghenion glanhau
- Glanhau tai haf
- Ymgymryd â gwaith contract
- Cynnal tiroedd
- Ymgymryd a gwaith ‘Pressure Washer’



Mr A J Eaglen, Uned 10, Glan y Don, Pwllheli, Gwynedd LL53 5YT
**(01758) 614 200 neu (07881) 922 938**
**www.spicknspan-services.com**
@ spicknspan_services@yahoo.co.uk

# Cofio Wil Sam

## Nodi ei ben-blwydd yn gant, 28 Mai 2020



*Y dyn ei hun*

DO, fe drefnwyd Gŵyl i gofio'r achlysur arbennig hwn yma yn Llanystumdwy ac roedd cryn edrych ymlaen amdani nes i'r aflwydd Coronafeirws 'ma gyrraedd fel huddyg i botas a baglu pawb a phopeth. Bu'n rhaid gohirio er mawr siom i lawer. Fe ddaw dyddiau gwell a bryd hynny cawn gyfle i roi'r pwythau yn eu holau ar y gweill ac aildrefnu. Ond fe gofiwyd y pen-blwydd mewn ffordd anrhydeddus iawn ar y cyfryngau, a da o beth oedd hynny.

Roedd gan Wil Sam sawl enw, meddai Gwilym ei ŵyr ar 'Cymru Fyw', ond roedd o'n ddigon ffodus i gael ei alw fo'n Taid. Ac roedd Gwilym yn gwirioni efo'r croeso mawr oedd i'w gael yn Nhyddyn Gwyn lle'r oedd y tylwyth teg yn gosod llestri brecwast dros nos.

Mewn cyfweliad â Gerallt Pennant ar *Heno* soniodd Gwyn, brawd Gwilym, am y plentyn fyddai'n blodeuo yng nghymeriad Wil yng nghwmni'r hogia, a'i falchder bod pobol yn dal i hel atgofion am ei daid. Da oedd deall hefyd bod y fainc, lle'r ysgrifennodd Wil ddrama o'r un enw, wedi ei thrwsio ac ar fin dychwelyd i'w phriod le yn Nhyddyn Gwyn.

Ail-ddarllediad o raglen a recordiwyd yn 1992 oedd *Beti a'i Phobol* ar y pnawn Sul olaf o Fai. Roedd Wil yn ei elfen yn sgwrsio'n ddifyr yn ei ffordd hynaws ei hun wrth hel atgofion am gyfnodau a phrofiadau gwahanol ei fywyd, a Beti'n gwneud yn siwr bod y gwrandawyr yn teimlo'n hollol gartrefol yng nghwmni'r ddau. 'Fe allwn i fod wedi treulio diwrnod fel hyn yn siarad â'n gilydd,' oedd sylw olaf Beti. Mae sawl un yn dyst i hynny.

I gloi'r Sul hwnnw cafwyd seiat o raglen gan Dei Tomos. Campwaith yn wir oedd hon, gyda chyfraniadau gwerth chweil gan amrywiaeth dda o gyfeillion a chan y genod, Mair ac Elin, ynghyd â phytiau hwyliog o'r archif. Daeth yr awr a hanner i ben yng nghwmni'r anfarwol Ifas y Tryc (Stewart Jones) a hanes ei ymweliad â thŷ potas y Singing Tebot. Cyfuniad perffaith o'r saer geiriau a'r perfformiwr yn dallt ei gilydd i'r dim.

Roedd Wil Sam yn sgriptiwr tan gamp a darlledwyd *Plant y Tonnau* (cynhyrchiad Ffilmiau'r Nant dan gyfarwyddyd Alun Ffred) ar S4C Clic i gydnabod y ddawn honno. Rhyfedd meddwl ei bod wedi dod i olau dydd am y tro cyntaf yn 1986!

Gan Gwilym mae'r gair olaf fodd bynnag. 'Sgwennu am ei bobl ei hun, i'w bobl ei hun, yn ei dafodiaith ei hun wnaeth Taid ac mae ei waith yn ddrych clir o'r dyn.' Ac rwy'n siwr fod pawb yn amenio'r sylw hwnnw.

Coffa da amdano. Pen-blwydd hapus, Wil!

***Brian Ifans***

MENTER Y PLU
LLANYSTUMDWY

YN GYNTAF oll rydym yn gobeithio bod caredigion y Fenter yn cadw'n ddiogel dan gysgod y Cofid-19. Mae'r Plu yn parhau ar gau wrth gwrs ond mae'r criw wrthi'n ddygn yn cynllunio ar gyfer ailagor a datblygu'r adeilad a'r busnes. Derbyniwyd cymorth ariannol trwy gynlluniau'r Llywodraeth i gefnogi busnesau yn ystod cyfnod y Cofid-19 a fydd yn cefnogi'r Plu i oroesi'r cyfnod dyrys yma.

Mae gwaith peintio a thwtio'r Plu yn parhau a thros yr wythnosau nesaf caiff cysylltiad ffeibr band llydan ei osod yn y dafarn. Rydym yn disgwyl canlyniad cais cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer datblygu gardd gwrw'r dafarn, a thros yr wythnosau nesaf disgwylir canlyniad cais grant am gymorth i wella cyflwr yr adeilad ei hun. Edrychwn ymlaen yn fawr at eich gweld yn fuan – gan bwyll bawb.

***Criw'r Fenter***


Ciropodi • Podiatri
Iola Roberts
P.G.Dip, D.Pod.M, MCPod
HCPC Cofrestredig
*Galwadau i'r Cartref*
Symudol:
**(07771) 278 633**

CONTRACTWYR TRYDANOL
Hughes a Williams
**Domestig – Masnachol – Diwydiannol**
**Galwadau Brys – Profi tai a nwyddau**
Dafydd Hughes **(07813) 008 479**
Arwel Williams **(07789) 300 525**
Iocws, Pwllheli LL53 5TY
**(01758) 612 621 dafydd@iocws.com**
*Amcanbrisio am ddim*

# AR DRYWYDD YR ENWAU

MARGIAD BERTHAUR

## Hen Dŷ a Tŷ Hen

SGWN I ydach chi rioed wedi meddwl pam fod un lle yn cael ei alw'n ***Dŷ Hen*** a'r llall yn cael ei alw'n ***Hen Dŷ***?! Be ydi'r gwahaniaeth?

Pan fydd ***hen*** yn ail elfen mewn enw lle e.e. ***Tŷ Hen***, ei ystyr ydi ***hen iawn***; ***hynafol***. Mae ***Tŷ Hen*** yn enw ar dŷ yn Llanengan ac ar dair ffarm ym Mhencaerau, Aberdaron a Llangwnnadl, Llŷn ac mae'n siwr fod mwy o enghreifftiau o'r enw ar gael ledled Cymru.

Pan fydd ***hen*** yn elfen gynta mewn enw lle e.e. ***Hen Dŷ***, ei ystyr ydi ***cyn-*** (***blaenorol***) a bod tŷ wedi bod ar yr un safle yn ***gynharach*** neu'n ***flaenorol***. Yr ***Hen*** dŷ cynta sy'n dwad i fy meddwl i ydi'r un yn Ynys, Cricieth sy'n cael ei sgrifennu fel un gair, ***Hendy*** ond yn cael ei ynganu fel dau, ***Hen dŷ***. Mae enghreifftiau eraill ym Mhistyll, Pencaerau, Ynys Enlli, Pontllyfni, Pencaenewydd, Llanengan a Sarn.

Mae pawb, wrth gwrs, yn gyfarwydd ag Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ym Mhenfro, a sefydlwyd gan Dewi Sant yn y 6ed ganrif. Glyn Rhosyn oedd enw arall ar y lle ond yn yr Oesoedd Canol adnabyddid y tir sanctaidd hwn fel ***Mynyw*** (a ddaeth o'r Lladin, Menevia).

Cred rhai, fodd bynnag, mai ***Henfynyw*** yng Ngheredigion oedd safle gwreiddiol mynachlog Dewi Sant ac mai yno y cafodd Dewi Sant ei eni a'i addysgu. Os ydi hynny'n wir, yna mae ***Henfynyw*** yng Ngheredigion yn safle crefyddol hŷn na Thŷ Ddewi a'r ***hen*** fel elfen gyntaf yr enw yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod adeilad crefyddol cynharach wedi bod ar y safle.


Cefnogwch ein hysbysebwyr

Beics Berno



Beics braf o'r Iseldiroedd
yn ddelfrydol i grwydro lonydd Llŷn ac Eifionydd
Siopau, Ysgol, Coleg, Gwaith
cyfforddus iawn
- ansawdd ardderchog
ffoniwch cyn galw ogdd - cyfleusterau golchi dwylo - digon o le i gadw pellter
Berno Brosschot, Trefaes Bach, Sarn
01758 730542 / 07929 769033
am luniau ewch at
www.facebook.com/beicsberno

Goleuo Llŷn
Stryd Penlan, Pwllheli
Gwynedd LL53 5DE
Goleuadau/Drychau
Offer trydanol/Gwresogyddion
(01758) 701 173 / (07816) 205 939
info@goleuollynlighting.com
www.goleuollynlighting.com



SILS FFENESTRI
CARREG AELWYD
CERRIG BEDDI
LLORIAU
PATIO
A LLAWER MWY ...
Cysylltwch am fanylion
(01766) 810 659
(07810) 340 628
lldslate@btinternet.com
LLECHI LLD SLATE CYF
www.lldslate.com



Tel : 07717 128003
Richard Pearson
Pob agwedd o waith coed, coedwigaeth a rheolaeth cefn gwlad
• Coed Tân meddal a chaled ar gael trwy'r flwyddyn • Cynnyrch pren •
• Proffesiynol • Safon BS 3998 •
• Dibynadwy • Cymwysedig •
• Preifat • Masnachol •
• Yswirio'n llawn •
Gwasanaethau Coed
Pearson & Co Ltd.
www.PearsonTrees.co.uk



Bennett Smith – cyfreithwyr
Ydych chi'n wynebu ysgariad neu wahaniad?
Cysylltwch â Karen Bennett neu Adrian Altman am gyngor cyfreithiol yn ymwneud â phob math o broblemau cyfreithiol teuluol yn cynnwys taliadau terfynol, gorchmynion ad-drefnu eiddo, ysgariad a phlant.
Mae Bennett Smith yn barod i'ch helpu gyda'ch anghenion cyfreithiol.
Ffôn (01248) 679 000
Ebost: mail@bennettsmith.co.uk
www.bennettsmith.co.uk
Garth Bach, Nant y Garth, Felinheli, Gwynedd LL56 4QF
Awdurdodir a rheoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

# Cofio cyfaill – Eirwyn Jones (1944–2020)



YN DAWEL yng nghwmni ei deulu yn ei gartref Glanrhyd, Mynydd Nefyn ar 16 Mai bu farw Hugh Eirwyn Jones (Bwff). Er mai un o Lŷn ydoedd dôi ei waith fel adeiladwr poblogaidd â fo yma i Eifionydd yn gyson. Roedd iddo lu o gyfeillion ac arwydd o'r parch a deimlid tuag ato oedd y dyrfa niferus a ddaeth allan ar hyd y ffordd wrth i'r angladd deithio o Fynydd Nefyn, trwy Pistyll, heibio ei hoff Glwb Golff yn Nefyn, a thua mynwent Pentreuchaf.

Ganed Eirwyn, y trydydd o feibion Hugh ac Alice Jones, Ty'n Weirglodd, Pistyll ar 29 Chwefror 1944 a hithau ar y pryd yn eira mawr – a dyna egluro tarddiad ei enw! Ymhen blynyddoedd symudodd i Dyddyn Ffeltiwr, Rhosfawr ond yn fuan wedyn codwyd pac eto pan briododd â Carys a hanai o Fangor, ac ymgartrefu yn Glanrhyd lle maged y plant Sian a John.


Bu Eirwyn yn gweithio mewn amryfal swyddi cyn iddo fynd ati i sefydlu ei fusnes adeiladu ei hun. Bu am gyfnod yn gweithio ym Mecws Llanaelhaearn yn cario allan ar y fan. Cafodd gyfnod hefyd yn Ffatri Laeth Rhydygwystl, a chafodd brofiadau diddorol yn gweithio'n wirfoddol fel un o Wylwyr y Glannau. Roedd un stori ddifyr iawn amdano yn cymryd rhan mewn ymarfer gyda'r Bad Achub a hofrennydd o'r RAF. Roedd angen i bawb gael y profiad o gael ei godi i'r hofrennydd ar winsh. Eirwyn oedd yr olaf i gael ei godi ond yn anffodus aeth rhywbeth o'i le gyda'r weiren, a stori uchel ganddo oedd ei hanes yn crafangio am ddrws yr hofrennydd ynghlwm yn y weiren. Fe lwyddodd!

Llwyddodd hefyd yn ei fusnes fel adeiladwr ac yn y gwasanaeth ar lan y bedd rhannodd y Parchedig Aled Davies rai o atgofion ei gyfeillion a'i deulu amdano. Yn ôl John, ei fab a'i gyd-weithiwr yn y busnes, roedd ei dad yn ddyn gwerthoedd a byddai bob amser yn dweud, 'Os ti am neud job, gwna hi'n iawn.'

Oherwydd yr aflwydd sy'n crwydro'r wlad ni chaniateir ymweld â theuluoedd yn eu galar. Er hynny, derbyniodd Carys a'r teulu gyfarchion a chydymdeimlad anhygoel yn ystod yr amser trist hwn, a chysur iddynt oedd cael darllen am atgofion melys cymaint o gyfeillion Eirwyn.

Cydymdeimlwn ninnau'n ddiffuant â Carys, Sian, John a'u teuluoedd yn eu hiraeth am un oedd mor annwyl ganddynt.

# Gradd MA i Bethan



***Bethan Dobson***

WEDI blynyddoedd o fod yn gymhorthydd dosbarth yn Ysgol y Groeslon, penderfynodd Bethan Dobson, Nantcyll Ganol, Pant-glas adael ei swydd a dilyn cwrs llawn amser yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor – hynny'n ôl yn 2015. Wedi tair blynedd o astudio, yn ogystal â gweithio mewn caffi a siop i gefnogi ei hastudiaethau, derbyniodd radd Baglor yn y Celfyddydau gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yng Ngorffennaf 2018. Er iddi fwynhau pob agwedd o'r cwrs roedd y modiwlau creadigol yn apelio'n fawr ati. Felly dychwelodd i Fangor i ddilyn cwrs blwyddyn Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol.

Roedd dwy ran i'r cwrs, a rhaid oedd pasio'r rhan gyntaf yn llwyddiannus er mwyn cael mynediad i'r ail ran. Gofynion y rhan gyntaf oedd cwblhau tri thraethawd oddeutu deng mil o eiriau'r un o dan y penawdau 'Themâu Creadigol', 'Technegau Cyfansoddi' a 'Mathau Llenyddol'. Yna roedd angen cyflwyno portffolio o waith creadigol hyd at 20,000 o eiriau fel ail ran. Yn ddiweddar derbyniodd Bethan y newyddion da ei bod wedi derbyn gradd Meistr yn y Celfyddydau mewn Ysgrifennu Creadigol gyda Rhagoriaeth.

Ers Medi 2019 bu Bethan yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos fel Arweinydd yng Nghylch Meithrin Garndolbenmaen. Mae hi hefyd yn y broses o gwblhau blwyddyn gyntaf ei Doethuriaeth mewn ysgrifennu creadigol, cwrs sy'n cynnwys llunio portffolio creadigol sylweddol a darn o ymchwil hunan-feirniadol yn seiliedig ar y project creadigol.

Llongyfarchwn Bethan yn gynnes ar ei llwyddiant arbennig a dymunwn y gorau iddi yn ei hastudiaethau pellach.

# Hwre, mae'n amsar chwara!

MAE CHWARAE PLANT wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn. Mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, a does dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.

Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yng Ngeiriadur y Brifysgol.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cuddio/cuddiad** neu chwarae cwato. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **chwarae mig, chwarae whic whiw**, **sbei** neu yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'?

Mae cofnod yn y Geiriadur am **chware cat**, sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei nabod hefyd fel **catio**, **chwarae'r gath ddwy gynffon** a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur mae sawl enw i'r gêm fel **chwarae donci mul**, **llam llyffant**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen** neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi amdani?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn yr 17–18g fel **chwarae pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel rydym ni'n ei nabod heddiw wrth gwrs ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus yn ôl yr hanes!

Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar ebost (gpc@geiriadur.ac.uk) neu trwy ysgrifennu at:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HH*

# Y Ffermwyr Ifanc

PWY fasa'n meddwl y buasai mis Mai wedi bod, a dim prysurdeb gan y Ffermwyr Ifanc at eu Rali flynyddol? Rhyfedd o fyd. Daeth y feirws â'i broblemau a rhoi holl ddigwyddiadau'r Mudiad ar stop – am y tro.

Na phoener, fe fydd y Rali (a oedd i'w threfnu eleni gan Glwb y Rhiw) yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf ar 29 Mai ar Fferm Gwythrian, Aberdaron. Bydd y croeso'r un mor gynnes.

Er nad ydym bellach yn cael cyfarfod wyneb yn wyneb, diolch i dechnoleg fodern mae rhai o Glybiau'r Sir yn dal i gynnal nosweithiau Clwb megis Cwis a Bingo. Cynhaliwyd sawl pwyllgor ar lefel Clwb, Sir a Chymru trwy'r amrywiol gyfryngau, a phenderfynwyd gohirio pob digwyddiad yn enw'r Mudiad tan fis Medi er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Byddwn yn cyfarfod eto i drafod trefniadau maes o law yn dibynnu ar ganllawiau'r Llywodraeth, gan groesi bysedd y bydd pethau wedi tawelu.

Serch hynny, nid yw'r aelodau wedi bod yn segur. Gwelwyd sawl fideo Clwb a Sirol doniol ohonynt yn taflu papur tŷ bach o'r naill i'r llall trwy recordio clip ohonynt eu hunain ac yna cysylltu'r cwbl i gyd efo'i gilydd, er mwyn rhoi gwên ar wynebau pobl.

Ar ben hynny penderfynwyd y dylid cynnal rhyw fath o ddigwyddiad ar gyfer diwrnod y Rali arfaethedig, h.y. pawb i gystadlu dros y we mewn cystadlaethau megis ffotograffiaeth, darlunio, ailgylchu deunyddiau, crefft allan o ddeunyddiau naturiol, coginio rhywbeth melys a rhywbeth sawrus, a chreu arwydd codi calon. Yn wir, cafwyd nifer uchel iawn o ymgeision o bob Clwb trwy'r sir. Bu'r beirniaid yn brysur iawn yn cloriannu trwy'r dydd. Am 5.00 yr hwyr cyhoeddwyd y dyfarniad ac wedi adio'r marciau i gyd y Clwb buddugol yn y Rali Rithiol oedd Clwb Llanrwst. Llongyfarchiadau iddynt ac i bawb arall fu'n cystadlu.

Penderfynodd rhai o swyddogion y Mudiad y buasai'n syniad da gwneud rhywbeth i godi calon aelodau a ffrindiau trwy rannu gwahanol bethau yn ddyddiol ar ein tudalen Facebook 'Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri'. Yn y cyfnod dyrys sydd ohoni mae'n bwysig edrych ar ôl ein gilydd. Enghreifftiau a welir yw posau ar nos Lun, hen luniau bob nos Fawrth, tips gan enwogion ar nos Fercher yn ogystal â chwis ar-lein fydd yn dechrau cyn bo hir, sylw i'r NHS ar nos Iau, a rysáit bob nos Wener a chynghorion ar sut i edrych ar ôl eich hun wrth ynysu. Os ydych chi ar Facebook cofiwch bod croeso i chi ein dilyn.


Mae 'Clwb 100' y Sir yn parhau, ond yn anffodus bydd raid aros tan y cynhelir ein Pwyllgor Gwaith nesaf i dynnu'r rhifau lwcus ar gyfer pob mis a gollwyd.

Mae llawer o'r Clybiau ar draws y Sir yn cynnig cymorth i'r rhai ohonoch sy'n dymuno hynny, megis nôl moddion neu neges. Cysylltwch â'ch aelodau lleol ar bob cyfrif.

Yn y cyfamser, cadwch yn ddiogel. Daw eto haul ar fryn.

***Meinir Owen, Is-Gadeirydd Ffermwyr Ifanc Eryri***

# Y Ffynnon 'Bach!'



Rhifyn 2


Mis Mehefin 2020

# 'Daw hyfryd fis...'



'... Mehefin cyn bo hir.' Ydych chi'n gwybod sut mae canu'r gân hon? Efallai eich bod wedi ei chanu yn yr ysgol, neu hyd yn oed mewn Eisteddfod. Tiwn gron ydi'r enw ar gân fel hon. Mae'n rhaid i fwy nag un person ei chanu, ond nid ydynt yn canu ar yr un pryd. Bydd un yn dechrau canu, ac yna bydd yr ail berson yn ymuno hanner ffordd drwy'r frawddeg gyntaf. Gwirion ynte?

Ond, mae hon yn gân rydym ni'r Cymry yn ei dysgu'n ifanc iawn, ac mae'n gofyn am ganolbwyntio a **chyd-weithio**. Dyma ddau beth pwysig iawn i ni ei gofio, yn enwedig yn y cyfnod od hwn yr ydym ni'n byw ynddo. Mae angen i ni fel pobl gyd-weithio er mwyn gwneud y byd yn lle gwell, ac yn lle diogel i **bawb** — o bob cornel o'r byd.




## Dysgwch y geiriau!



Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir,
a chlywir y gwcw'n canu'n braf yn ein tir.
braf yn ein tir, braf yn ein tir.
Gw-cw, Gw-cw, Gw-cw'n
canu'n braf yn ein tir.


# Posau'r Pentrefi


Dyfalwch pa bentrefi sy'n cael eu cynrychioli gan yr emojis!

1.  _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ (11)

2.  _ _ _ _ _ _ _ _ _ (9)

3.  _ _ _ _ _ _ _ _ _ (9)

4.  _ _ _ _ _ _ _ (7)



5.  _ _ _ _ _ _ _ (7)

6.  _ _ _ _ _ (5)

7.  _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ (12)

# Diolch i'r ffermwyr!



Ers pan ddaeth y feirws i'n poeni mae llawer o bobl wedi methu mynd i weithio fel arfer ac yn gorfod gweithio o adref. O adref mae'r ffermwyr yn gweithio bob amser wrth gwrs a tydi eu gwaith nhw ddim wedi newid o gwbwl.

Mae'n rhaid bwydo'r anifeiliad, aredig a thrin y tir, plannu'r hadau a gwneud yn siwr y bydd digon o fwyd ar gyfer porthi yn y gaeaf wrth gasglu gwair a silwair. Yr adeg yma hefyd bydd yn rhaid cneifio'r defaid rhag iddynt ddioddef yng ngwres yr haf. Ydych chi wedi sylwi ar y ffermydd o gwmpas yr ardal pan fyddwch yn mynd am dro? Diolch i'r ffermwyr am weithio mor galed a gwneud yn siwr bod digon o lefrith a wyau, llysiau a chig ar gael ar ein cyfer ni.

**Tasg:** Lluniwch boster yn dangos yr holl bethau yr ydym ni'n ei gael o ffermydd. Anfonwch eich posteri drwy'r post neu dros ebost/Facebook y Ffynnon i ni gael eu rhannu.

# Lliwiwch y llun o'r anifeiliaid ar y fferm



# Rhyfedd o fyd




Welsoch chi wennol eleni? Fel y gog, mae'r wennol yn teithio'n bell i ddod atom dros yr haf. Bydd ambell wennol yn cyrraedd braidd yn gynnar a'r adeg honno bydd pobl yn dweud **'Un wennol ni wna wanwyn'.**

Yn fuan iawn bydd llawer o wenoliaid eraill yn cyrraedd a'r adeg honno byddwn yn gwybod ei bod yn wanwyn go iawn. Mae'n hawdd adnabod gwennol gan fod ei chynffon yn hollti fel siâp y llythyren V. Bydd yn hedfan yn hynod o gyflym o le i le ac yn dal pryfed yr un pryd. Fel arfer bydd yr un wennol yn dod yn ôl i'r un lle flwyddyn ar ôl blwyddyn a bydd yn mynd ati i drwsio neu ailadeiladu ei nyth. Ar ddiwedd y tymor magu pan fydd y cywion bach wedi dysgu hedfan bydd y wenoliaid yn casglu ar weiren am wythnos neu ddwy cyn cychwyn ar y daith hir yn ôl i wlad gynhesach na Chymru.



# Croesair y Plant!




**Ar Draws**

**2.** Tad y llo. (4)
**4.** Mae hwn yn clochdar yn y bore. (7)
**6.** Hon sy'n dal y llygod. (4)
**7.** Mae hon yn rhoi gwlân i ni. (5)
**8.** Mae rhain yn perthyn i Jaci Soch. (4)

**I Lawr**

**1.** Cyn plannu rhaid ------ y tir. (6)
**3.** Ffrind gorau'r bugail. (2)
**5.** Rhaid gwneud hyn i'r fuwch cyn cael llefrith. (5)

# Gair o Gatalonia

DA YW CAEL dweud ein bod ni'n cadw yn iach yma yng Nghatalonia a hefyd bod ein ffrindiau a'n perthnasau i gyd yn iawn. Mae Carys y ferch yn Nottingham yn dal yn cofrestru cleifion ar brosiectau i chwilio am gyffur effeithiol i drin y feirws, ond diolch byth mae yna lai o gleifion yn yr uned ddwys ac nid yw'n gorfod gweithio cymaint o oriau erbyn hyn.

Mae'r sefyllfa yma erbyn heddiw [dechrau mis Mehefin] yn llawer llai dyrys. Ac erbyn hyn rydym yn fodlon iawn ein bod wedi gwneud y dewis cywir i aros yma. Wrth edrych ar y sefyllfa ym Mhrydain mae'n edrych fod pethau yn dal i fod yn eithaf brawychus, er bod y canllawiau wedi cael eu llacio rhywfaint – mwy yn Lloegr nag yng Nghymru yn ôl a ddeallwn – mae'r sefyllfa'n fregus. Mae'r nifer o farwolaethau ym Mhrydain yn y cannoedd bob diwrnod tra yn y gweddill o wledydd Ewrop maent i lawr dan gant pob dydd. Da yw cael dweud ein bod ni yma yn Sbaen wedi cael y diwrnod cyntaf heb yr un farwolaeth o achos y feirws ers 3 Mawrth.



***Barod am baned o goffi! Pellter taclus rhwng pob bwrdd, a diheintydd ar gyfer glanhau'r byrddau a'r cadeiriau***

Yng Nghatalonia mae'r llywodraeth wedi torri'r wlad i lawr i ranbarthau Bwrdd Iechyd, ac mae'r ardaloedd yn symud ymlaen trwy'r cyfnodau yn dibynnu ar y sefyllfa yn y rhanbarth. Yma yn ein rhanbarth ni (Terres De L'Ebre) yn Ne Catalonia rydym wedi symud ymlaen yn gyflym trwy'r cyfnodau llacio, ac erbyn heddiw rydym bron yn y 'normal newydd'. Yr wythnos diwethaf fe brynon ni beiriant golchi dillad, cefais hefyd brynu dillad isaf newydd mewn marchnad ar y stryd ac rydym wedi bod allan am aml baned o goffi a hefyd prydau o fwyd.

Yn anffodus mae yna ranbarthau sy'n gorfod aros yn y cyfnod cychwynnol – fel o gwmpas tref Lleida lle gwelwyd achosion o'r feirws mewn gweithwyr mewn lladd-dy anifeiliaid ac ar ôl i ugain o bobol fynychu parti pen-blwydd, a hefyd dinas Barcelona.

Does ganddo ni ddim hawl i deithio o un rhanbarth i un arall. Mae pawb yma'n ofalus iawn hefyd, a rhyfedd iawn yw gweld ffrindiau'n cyfarch ei gilydd trwy gyffwrdd penelin – does yna ddim ysgwyd llaw na chusanu ar y ddwy foch fel roedd yr arfer. Pawb yn cadw pellter taclus ac mae'r mwyafrif yn gwisgo mwgwd dros eu hwynebau pan maent allan ar y stryd, ac mae hynny'n ofynnol yn y siopau gyda diheintydd wrth ddrws pob siop a chaffi. Mae'r cynghorau lleol yn cynnal dosbarthiadau i weithwyr ar sut i gadw eu hunain a chwsmeriaid yn saff.

Mae pawb yn parchu'r rheolau. Mae'r gwleidyddion yn onest ac yn gweithio gyda'i gilydd er lles y gymuned, ac maent hefyd yn barod i ymddiheuro pan fydd pethau'n mynd o chwith ac os oes camgymeriadau'n cael eu gwneud.

Cadwch yn saff.

***Selwyn***

---

GAIR O GYNGOR CYMUNED...

## Llanystumdwy

PIGION o gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Iau, 21 Mai drwy gyfrwng Zoom oherwydd sefyllfa COVID-19, o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Anwen Jones.

**Cais Cynllunio**
Pen y Bryn, Chwilog – codi estyniad deulawr. Cefnogi.

**Materion yn y gymuned**
Pont ar y lôn rhwng Brychyni drwy'r winllan am Ynys Wen, Llangybi – wedi derbyn ymateb gan Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cadarnhau y byddant yn mynd i asesu'r bont oherwydd bod cerrig wedi disgyn oddi arni. Y gobaith wedyn yw y byddent yn apwyntio contractwr i gwblhau'r gwaith trwsio yn fuan yn dilyn y canllawiau priodol.

Cysylltiad band eang ffibr – derbyniwyd ymholiad fod cyflymdra cyswllt yn araf o fewn rhannau o'r gymuned. Cysylltwyd ag Openreach, ac fe gynghorwyd unrhyw un oedd yn cael trafferthion i wneud ymholiad unigol gan nodi eu cod post yn y lle priodol trwy ddilyn y linc yma: www.homeandbusiness.openreach.co.uk/fibre-broadband/when-can-i-get-fibre. Dylid derbyn ebost wedyn i'ch hysbysu pa bryd y bydd y cyswllt ffibr yn debygol o fod ar gael.

Cynhelir ein cyfarfod blynyddol ar Zoom nos Iau, 18 Mehefin a bydd yn agored i'r cyhoedd. Os hoffech wrando ar y cyfarfod cysylltwch â'r Clerc drwy ebost er mwyn derbyn gwahoddiad i ymuno.

Gobeithio y bydd pawb yn cadw'n saff yn ystod y cyfnod anodd yma. Os gall unrhyw un ohonom fod o gymorth i aelodau'r gymuned mae rhestr o rifau eich Cynghorwyr lleol ar ein gwefan ac wedi'u gosod ar yr hysbysfyrddau o fewn pentrefi Llanystumdwy, Rhoslan, Llangybi, Pencaenewydd a Chwilog.

Gellir cysylltu â'r Clerc ar ôl 6.00 yh. ar 01766 810614, neu drwy ebost at: clerccllanystumdwy@gmail.com – neu gellir gweld holl fanylion y Cyngor Cymuned ar y wefan sef www.cyngorllanystumdwycouncil.org

# Traed oer

GAN FOD yr ardd fel gardd pawb arall yn ôl y sôn yn edrych yn well nag y bu erioed, treuliais bnawn difyr yn darllen tipyn, a hepian cysgu bob yn ail. Bodio drwy *Gweithiau Mynyddog* (Hughes a'i Fab 1866) oedd piau hi y diwrnod hwnnw, a daeth hynny â rhagor nag un atgof o rywle.

Mewn sawl cwis y gofynnwyd y cwestiwn 'Pwy yw awdur Myfanwy?' a cheid yr ateb yn ddibetrus: Joseph Parry. Os gofynnid pwy oedd awdur y geiriau – mudandod gan amlaf. Ni chawsai Mynyddog ei haeddiant.

Wrth bori yn y gyfrol gwelais hefyd mai Mynyddog a gyfieithodd gerdd enwog Edgar Allan Poe i Annabel Lee, a dyna fi'n ôl i ganol y ganrif ddiwethaf pan glywais David Lloyd yn canu'r gân mewn cyngerdd yn Neuadd y Dref, a chofio'r genod a eisteddai o'n blaenau yn ochneidio mewn perlewyg yn gwrando arno.

Mewn cerdd o'r enw 'Pris y Glo' gwelir y pennill hwn:

Mae trwynau pawb yn glasu,
A'u daint yn curo ynghyd,
A rhewa'r gwaed
O'r pen i'r traed,
Am fod y glo mor ddrud;
Mi glywais sôn am rywun
Er mwyn cael twymo'i waed
Yn dodi plaster
Llydan mawr
O fwstard wrth ei draed.

Wel, doedd gen i ddim mwstard ond gallaf uniaethu â'r profiad o draed oer ers yn agos i ddeng mlynedd a thrigain. Mae dau ystyr i'r ymadrodd wrth gwrs. Os ydych yn 'cael traed oer' yn ffigurol yr ydych yn gwangalonni, yn gwrthod mentro ar ryw ddyletswydd neu'i gilydd rhag ofn i chi fethu â'i gyflawni. Nid y rheini sydd gen i dan sylw ond traed oer fel cerrig y clawdd ac a'm rhwystrai rhag cysgu.

Ar daith ar fy mhen fy hun ar drywydd dwy neu dair o straeon i'r *Cymro* yn ne-orllewin Cymru yr oeddwn. Am rai nosweithiau yng nghanol mis Rhagfyr cawsom lefydd cynnes, cartrefol i glwydo ynddynt. Ond ar y noson olaf dyma gamu i gyntedd hir carpedog gyda delw mawr du yn gwarchod y drws. Go brin fod 'stafell Cynddylan fawr tywyllach! Wedi cnocio yrhawg ar y ddesg fe gododd rhyw drwmp hir draw yn y pellteroedd a daeth gwraig i'r amlwg i'm derbyn yn swyddogol a chyflwyno'r llyfr i mi i'w arwyddo. O graffu gwelwn mai myfi oedd yr unig letywr o fewn y pyrth yn gwmpeini i'r wraig a'r ddelw. Doedd dim enw neb arall ar y llyfr y noson cynt ychwaith na'r noson cyn hynny.

Roedd hi'n gythreulig o oer. Dim tewyn o dân yn unman, dim gobaith am botel ddŵr poeth a'm dau droed fel dau ddarn o rew. Gwisgais fy sanau am sbel, codais i olchi fy nhraed ond doedd dim ond dŵr oer yn y tapiau H ac C fel ei gilydd. Y waredigaeth yn y diwedd fu gwthio un troed i'm cap gwau a lapio'r llall yn fy nghrafat. Daeth Huwcyn heibio ryw dro o drugaredd.

Yn y bore a chael brecwast gwerth chweil, chwarae teg, sylweddolais i mi dreulio'r nos mewn gwesty pur steilus. Pan gyflwynwyd imi'r bil gwyddwn hynny'n bendant. A phe bai'n rhaid i mi dalu o'm poced fy hun diau y buasai'r hen ddelw wedi clywed gair neu ddau o hanes ei nain. Ond hael yw Hywel. Aeth hynny heibio ond erys yr atgof.

***D.E.***

# Newid ddaw...




OS NA FUOCH heibio pentref Chwilog ers tro fyddwch chi ddim wedi gweld y newidiadau sydd ar droed. Erbyn hyn mae maes parcio Tafarn y Madryn wedi ildio'i le i ffordd newydd sydd yn fynediad at y caeau yng nghefn y dafarn. Bwriedir codi hyd at bymtheg o dai newydd yno yn ystod y blynyddoedd nesaf, datblygiad fydd yn sicr yn gweddnewid ac yn bywiogi y rhan hon o'r pentref. Fel y gwelir yn y llun mae'r dafarn hefyd wedi ei gwerthu. Difyr fydd gweld beth a ddaw.


Pritchard a Griffiths Cyf.
SEFYDLWYD 1936 ESTABLISHED
Trefnwyr Angladdau
- Gofal Personol 24 awr
- Capel Gorffwys
- Cynlluniau Angladd Rhagdaledig

Heol Dulyn, Tremadog
**Ffôn: (01766) 512 091**
post@pritchardgriffiths.co.uk





MAE CLYWED eich bod wedi'ch gadael mewn ciosg, toiled cyhoeddus, bag neu focs corn bîff, ychydig oriau wedi'ch genedigaeth, yn siŵr o adael andros o dolc yn hunan-barch unrhyw un. Ond dyna oedd man cychwyn ymchwiliad Helen, Fiona, David a Simon am eu rhieni genedigol yn ystod dwy raglen ddogfen *Born Without Trace* ar ITV.

Does dim yn rhinweddol am raglenni teledu sy'n cymryd mantais o sefyllfaoedd anffodus neu boenau meddwl eraill i ddifyrru cynulleidfa, ond gan fod y pedwar uchod wedi bod wrthi eisoes ar eu liwt eu hunain yn 'chwilio heb eu cael nhw', rhyw berthynas 'cân di bennill fwyn…' oedd rhwng y cwmni cynhyrchu a hwythau.

Wrth reswm, roedd y rhaglenni'n byrlymu o ffidlau, dagrau a stumiau 'O-bechod!' Davina McCall, ond yr elfen fwyaf diddorol oedd y gwahaniaeth rhwng y stori roedd pob un o'r pedwar wedi'i chyfansoddi yn ei ben ynghylch amgylchiada'i enedigaeth â'r hyn oedd wedi digwydd mewn gwirionedd. Roedd Simon druan wedi concoctio'r stori fawr 'ma bod ei fam enedigol wedi mynd i ddisgwyl yn hogan ifanc yn dilyn perthynas gydag un o griw y llongau masnach o Norwy oedd yn docio yn y porthladd lleol, a hwnnw'n gwybod dim am ei fodolaeth. Doedd y gwir ddim hanner mor rhamantus ac roedd gwylio Davina'n datgelu'r stori go iawn i Simon yn brofiad dirdynnol. Roedd rhieni genedigol Simon wedi bod yn briod am ddeng mlynedd a chanddynt chwech o blant. Am ba bynnag reswm, gwnaethpwyd y penderfyniad na fedran nhw fagu seithfed plentyn, felly danfonwyd Simon i dafarn gyfagos a'i adael mewn bocs yn y lle chwech.

Ydi Simon, erbyn heddiw, yn dawelach ei feddwl o fod wedi cael gwybod hyn? Wyddom ni ddim, ond y peth cyntaf wnaeth o wedi clywed yr hanes oedd dechrau romansio ynglŷn â pham y dewisodd ei rieni genedigol ei amddifadu. Chaiff Simon na gwylwyr ITV fyth wybod y gwir reswm, gan fod ei rieni genedigol fel pob rhiant arall yn y cynhyrchiad hwn wedi'n gadael. Er bod y cynhyrchiad yn llwyddo i ateb y prif gwestiynau, fedar gwyddonwyr, gweithwyr cymdeithasol nac aelodau'u teulu colledig fyth ateb holl gwestiynau'r chwilotwyr, p'run ai eu bod nhw'n fodlon gwneud hynny ai peidio.

Mae'n debyg bod cael eich llusgo i mewn i wead cymhleth sefyllfaoedd o'r fath yn brofiad anesmwyth i berthnasau ar y ddwy ochr, felly dewis peidio ag ymddangos ar gamera wnaeth y mwyafrif. Wrth orbwysleisio gwerth y genynnau, a phrin grybwyll y rhieni a roddodd gartref cariadus i bob un o'r pedwar, roedd y cynhyrchiad rywsut yn dibrisio'r ymdrech orchestol a roddir i fagu plant. Yr argraff a roddwyd trwy gydol y rhaglenni oedd bod oriau cyntaf einioes yn trympio'r holl flynyddoedd sydd i ddilyn, doed a ddelo.

Mae holi pwy ydan ni, o ble daethon ni, a be sy'n ein gwneud ni yn ni yn rhan annatod o fod yn ddynol, ond siawns bod Helen, Fiona, David a Simon yn dal i gofio pwy fu'n eu bwydo, eu nyrsio, eu cysuro, eu hannog, eu haddysgu, eu harwain a'u caru gydol eu plentyndod a thu hwnt. Ydi hen ffotograff ac ambell stori aillaw yn gyfwerth â'r holl brofiadau ac atgofion byw hynny?

Trin Coed
TY'N LLWYN
Tree Services

- Ffensio
- Gwasanaeth hollti symudol
- Galwad allan 24 awr mewn argyfwng

Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor, Pwllheli, Gwynedd LL53 5UG
Ffôn: (01758) 612 608 • Symudol: (07807) 213 527

Cynnig GOFAL PLANT CYMRU
Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Ar gael yn Gwynedd a Môn
(01248) 352 436 • gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru



# Tro ar Fyd

## Yr Wylfa (1964–9)
### parhâd

YM MHEN AMSER felly ar ddiwrnod arferol byddwn yn gollwng Dewi yn yr ysgol am naw (wedi iddo ddechrau yn Ysgol Gynradd Amlwch) a mynd ar fy union i'r safle. Yno byddwn yn chwilio cofrestrau'r mynd a dod, a pharatoi rhestr ymweld at y nos. Cinio bob amser yn y cantîn gan ofalu eistedd ar fwrdd gwahanol bob tro. Yna cychwyn ymhob tywydd i ymweld â phobl ar safle'r adeiladu. Roedd hwnnw'n ehangu o fis i fis. Hyn oedd yn rhoi cyfle i mi i gyfarfod y Cymry lleol a'r rhai fyddai'n teithio'n bell bob dydd.

Gwn i mi yn y cyfnod hwn wneud cam â fy nheulu. Nid oeddent yn gweld fawr arnaf. Profiad tywyll oedd i Morfydd gario plentyn a'i cholli ar ei genedigaeth. Ond ymhen amser, trwy fabwysiad, daeth Rhys Meirion atom yn dri mis oed a chyfoethogwyd ein bywyd eto.

Fel y dywedais wrth y *Cymro*, chwilio fy ffordd yr oeddwn – a baglu o dro i dro. Ffeindiais nad gwrthod y caplan a'i gapel yn unig yr oedd y bechgyn yn bennaf ond y syniad, neu'r angen, am Dduw yn eu bywyd a'u gwaith bob dydd. Ond roedd fy mhresenoldeb hyd y lle, efallai, yn codi cwestiwn iddynt. I mi cyfrwng, nid diben, oedd adeilad capel bob amser.

Parhaodd diddordeb y cyfryngau. Sgwennais aml i adroddiad gan geisio bod yn onest a chywir, a chyfrennais i ddwsinau o raglenni radio a theledu.

Daeth ambell ymwelydd diddorol heibio, yn eu plith y Dr Walter Hollenweger, Genefa – ysgrifennydd adran Eglwys a Chymdeithas Cyngor Eglwysi'r Byd. Bu'n aros ar ein haelwyd a bu'n crwydro'r safle a chyfarfod rhai o'r penaethiaid a'r hogiau. Roedd wrth ei fodd yn eu plith. Ymhen amser cyhoeddodd lyfr mewn Almaeneg am ei fynych ymweliadau o gylch y byd. Y llun yma o'r ddau ohonom sydd ar y clawr.



*Dr Hollenweger a'r caplan*



*Un o gylchoedd trafod yr Wylfa – o bum gwlad*

Buom ym Môn am bum mlynedd, prif gyfnod yr adeiladu, a chael cyfarfod miloedd o'r gweithwyr a chael helpu ambell un yn nydd rhyw angen neu argyfwng. Ond tystiolaeth? Cenhadaeth?

Pan fyddaf yn ceisio ateb cwestiwn felly, am rai fel George France o India'r Gorllewin neu Sammy Majeury o Belfast a'r brodyr Reid y byddaf yn cofio. Nid am eu ffyddlondeb i'r capel bach – er bod hynny'n rhan hanfodol – ond am yr hyn *oeddent* hwy a'u tebyg. Eu byw mewn byd cymhleth a materol yn arwydd o'u ffydd. Dyma'r dystiolaeth. Fy mraint olaf i bron wrth adael y Wylfa oedd hedfan i Belfast i angladd Sammy Majeury. 'Da was da a ffyddlon.'


Ers tro roeddwn wedi derbyn gwahoddiad, yn dilyn tymor yr Wylfa, i symud i ogledd-ddwyrain Cymru i swydd gyd-enwadol newydd eto, fel caplan i *ranbarth* diwydiannol. Sut beth oedd hynny ni wyddwn ond edrychwn ymlaen.

Ond yna, un dydd, gwelais apêl am gaplan dros dro ('locum tenens') i wasanaethu pobl y diwydiant olew yn Ahmadi, Kuwait ym mhen Gwlff Arabia.


'Diddorol,' meddan ni'n dau ag un llais.

***A.M.R***

*I'w barhau*

# Cofio Mrs Nellie Thomas



GWRAIG arbennig iawn oedd Mrs Kate Ellen Thomas, a adwaenid gan bawb fel Nellie, gynt o Gefail-y-Bont, Efailnewydd a fu farw ym Mhlas-y-Don, Pwllheli (lle cartrefai ers dwy flynedd) yn 90 oed.

Er profi amgylchiadau enbyd iawn yn ei bywyd, cadwodd ei ffydd a chofir amdani yn wraig hwyliog gyda gwên ar ei wyneb bob amser ac un ddifyr iawn ei sgwrs.

Ganwyd hi yn nalgylch Y Ffynnon, yn Planwydd, Llanaelhaearn yn chwaer i Dic (Twnti). Yno roedd ei thad Griffith Jones yn gigydd cyn symud i amaethu i Tu-hwnt-i'r-gors, Pentreuchaf. Bu ef farw yn ieuanc a symudodd Annie Mary ei weddw – Nanw i bawb o'i chydnabod – i Dai Newyddion, Llannor.

O'r ysgol aeth Nellie i weini i Iocws ond cwta fu'r cyfnod yno gan iddi briodi â Hugh yn ieuanc iawn a chael pedwar o blant – y diweddar Griffith Vaughan, y diweddar Emyr, ac Eirlys a Gwenda. Bu Hugh a Nellie yn ffermio yn Nhai Hirion, Boduan ac yntau'n gweithio i'r Comisiwn Coedwigaeth 'run pryd cyn ymfudo i Gefail-y-Bont.

Un o hoff bleserau Nellie oedd darllen. Daliodd y meddwl a'r cof yn eithriadol o fyw hyd y diwedd, ac ymddiddorai yng ngweithgareddau'r fro drwy ddarllen Llanw Llŷn a'r Ffynnon yn gyson. Roedd pob rhifyn o'r ddau gyhoeddiad ganddi o'r cychwyn cyntaf yng Ngefail-y-Bont.

Treuliodd gyfnod hapus yng Nghartref Gofal Plas-y-Don a mwynhaodd ei chyd-breswylwyr a'r staff eu hunain yn ei chwmni.

Yn ei hangladd cyfyngedig i nifer fechan dan drefn gaeth y Clo Mawr, ym mynwent Pentreuchaf, arweiniwyd y gwasasnaeth gan y Parchedig Bryn Williams, Pwllheli.

Derbyniodd y teulu deyrnged arbennig i Nellie gan y Parch. R. E. Hughes a gyfeiriodd ati fel gwraig wrol bob amser ym mhob profiad dyrys ac anodd. Gallodd ddal ymlaen yn gryf a dyfal ei gafael yng nghanol cieidd-dra bywyd. Roedd ei ffydd a'i chred yn noddfa iddi. 'Edmygwn hi yn fawr am ei sirioldeb a chynhesrwydd ei phersonoliaeth,' meddai Mr Hughes.

Cydymdeimlwn â'i merched, Eirlys yn Chwilog a Gwenda yn Nefyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth lem.


## Blodau Eleri

Blodau gwreiddiol, traddodiadol a modern ar gyfer pob achlysur.

**Priodasau yw ein harbenigedd**

34 Stryd Fawr
Cricieth LL52 0BT
**(01766) 522 626**
**www.blodaueleri.co.uk**







Ateb pos y tro diwethaf oedd:

**DIFFWYS**

Dyma gwis bach lle mae gofyn i chi neud syms:

1. Sawl pennod sydd yn Llyfr Genesis?

2. Ychwanegwch nifer yr Efengylau yn y Testament Newydd.

3. Wedyn tynnwch allan sawl mochyn bach fu'n herio'r blaidd yn y stori.

4. Sawl cynnig sydd i Gymro? Tynnwch y rhif o'r cyfanswm hyd yma.

5. Sawl aderyn sydd yn enw llyfr Morgan Llwyd o Wynedd? Tynnwch y rhif yma hefyd o'r cyfanswm hyd yn hyn.


6. Ystyriwch yr hen bos hwn: 'How many miles, how many / From Leominster to Llanllieni?' Adiwch yr ateb at y cyfanswm.

Beth yw'r cyfanswm terfynol?

**Pob hwyl i chi.**


## Ffotograffydd

Priodasau, portreadau ac ati


Eryl Jones, Gwalia, Chwilog
**(01766) 810 683**
**eryljones@outlook.com**
**Gweplyfr: Eryl Jones Ffotograffydd**

*Cysylltwch am fanylion ac esiamplau*



## Gwasanaeth Cyfrifon Caren

- Cyfrifon cyfrifiadurol (Sage)
- Treth ar Werth
- Ffigurau misol
- Cyflogau

Telerau rhesymol • Gwasanaeth Cyfeillgar
Cymwysedig yn system Gyfrifiadurol Sage
Polisi Indemnity

**Caren Thomas AICB (Comp)**
**Tel/Ffacs: (01766) 810 096**
**Symudol: (07881) 922 937**
**carensbookkeeping@btinternet.com**

*Aelod Cyswllt Cyfrifiadurol*
*Rhif Practis 3040*

# Sêr y sgrin fach

BU RHAI o drigolion Chwilog yn amlwg iawn ar raglenni S4C yn ystod y mis. Ar y rhaglen *Ffermio* gwelsom Sion Bryn, Annedd Wen a'i gymar Ela yn sôn am yr her sy'n eu wynebu wrth iddynt ddod yn denantiaid ar fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Porth Gwylan yn Nhudweiliog. Pob dymuniad da i'r ddau ar y fenter.

Ar y rhaglen *Ar Werth*, sy'n dilyn gwerthwyr tai wrth eu gwaith, gwelwyd sut yr aeth Carl Williams o'r Fferm Gwningod, Llanystumdwy ati i brynu ei gartref cyntaf a hynny yn Chwilog. Roedd Carl sy'n athro Chwaraeon yn Nolgellau yn gwybod yn union beth roedd yn chwilio amdano, a rywsut fe lwyddodd i wneud i'r holl broses edrych yn un hynod o rwydd! Pob dymuniad da iddo yntau yn ei gartref newydd.



***Lois Povey newydd ddanfon cinio i hogia Llechi'r Ddraig cyn cael ei chyfweld gan Gerallt Pennant***

Ymwelodd Gerallt Pennant a chamerâu y rhaglen *Heno* â gwaelod y pentref, a chawsom eitem ddifyr iawn yn dangos gwaith diflino ein cigydd lleol Dafydd Povey a'r teulu yn y siop. Gwelsom y gwaith caled sy'n digwydd yng nghefn y siop er mwyn paratoi seigiau sy'n gyson yn denu cwsmeriaid o bell ac agos. Roedd Wyau'r Ddraig, sef *Scotch Eggs* arbennig Povey, yn amlwg yn plesio Gerallt! Bu Dafydd ac yntau wedyn yn trafod y newidiadau sydd wedi dod yng nghysgod y feirws, a difyr iawn ar ddiwedd yr eitem oedd gweld hen feic y diweddar Emrys Povey yn cael gwaith unwaith yn rhagor. Bydd hogia Llechi'r Ddraig yn archebu eu cinio o'r siop, a fydd Lois ddim dau funud yn picio â fo i lawr iddyn nhw ym masged yr hen feic.

Dwn i ddim faint ohonoch sy'n gwirioni ar gwningod ond dyna oedd testun sgwrs ar *Heno* nos Iau, 4 Mehefin. Bu Cara, sy'n byw ym Mhenygroes Llanystumdwy ac yn chwaer i Carl y clywsom ei hanes uchod, yn trafod cwningod ar y rhaglen. Mae ganddi brofiad helaeth o'r anifeiliaid hyn gan ei bod yn rhedeg y Fferm Gwningod yn Llanystumdwy gyda'i rhieni Bruce a Myfanwy.

Golygfa go ddramatig arall a welwyd ar y sgrin fach yn ystod y mis oedd yr un ar y rhaglen *Y Fets* pan welsom y milfeddyg Dafydd Alun Jones, Brynrhydd, Llanarmon yn tynnu llygad ceffyl oedd yn dioddef o gancr. Da oedd deall i'r ceffyl ddod ato'i hun yn rhyfeddol yn dilyn y driniaeth.




MAE RHEOLAU Su Doku yn hawdd. Mae angen rhif rhwng 1 a 9 ym mhob bwlch gwag. Dylai pob rhes ar draws y grid gynnwys pob un o'r rhifau rhwng 1 a 9. Dylai pob colofn i lawr y grid gynnwys pob un o'r rhifau 1 i 9. Dylai pob sgwâr 3 x 3 hefyd gynnwys pob un o'r rhifau o 1 i 9. Does ond un ateb cywir.

## Ateb Mai

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 7 | 1 | 8 | 6 | 2 | 5 | 3 | 4 |
| 5 | 2 | 8 | 7 | 4 | 3 | 1 | 6 | 9 |
| 3 | 6 | 4 | 5 | 1 | 9 | 7 | 2 | 8 |
| 6 | 4 | 5 | 2 | 9 | 1 | 8 | 7 | 3 |
| 8 | 3 | 7 | 6 | 5 | 4 | 9 | 1 | 2 |
| 2 | 1 | 9 | 3 | 7 | 8 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 5 | 2 | 9 | 8 | 6 | 3 | 4 | 1 |
| 4 | 9 | 6 | 1 | 3 | 5 | 2 | 8 | 7 |
| 1 | 8 | 3 | 4 | 2 | 7 | 6 | 9 | 5 |

## Cymedrol


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 7 | | | | 3 | 5 | | |
| 4 | | | | 7 | | | | 6 |
| 8 | | | 5 | | | 9 | | |
| | | 7 | 8 | | 2 | | | |
| 9 | | | | | | | | 1 |
| | | | 7 | | 6 | 2 | | |
| | | 9 | | | 1 | | | 5 |
| 7 | | | | 5 | | | | 2 |
| | | 6 | 4 | | | | 9 | |





Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

Ffenestri Dwyfor
Cae Llyn, Garndolbenmaen, Gwynedd LL51 9TZ
**Ffôn: (01766) 530 397 / (01766) 530 514**
ebost: mowen2549@aol.com
**www.fdwarlein.com**



**Drysau a Ffenestri o bob math a defnydd**

Holwch am ein toeau LivinROOF chwyldroadol ar gyfer eich ystafell haul neu estyniad

Cwmni Cofrestredig FENSA Registered Company
LivinROOF by ultraframe






*Capten Robert Thomas*

GANWYD Robert Thomas yn 6 Teras Corporation, Cricieth yn 1879. Bu farw ei dad a'i daid, o'r un enw, tra oeddynt ar y môr ac roedd yr heli yng ngwaed Robert hefyd. Fe syrthiodd dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â merch ifanc o Gorsanedd, Llangybi. Ei henw oedd Catherine ac roedd hi'n fodryb i'r arlunydd enwog o Lanystumdwy, sef Gwilym Prichard.



*Catherine*

Derbyniodd Catherine deligram yn ystod mis Mawrth 1907 yn ei siarsio i ddod ar frys i Gaerdydd. Roedd Robert, neu'r Capten Robert Thomas erbyn hyn, am ei phriodi! Ni fu'n rhaid gofyn ddwywaith. Hwyliodd y ferch dwy ar hugain oed ar ei mordaith gyntaf gyda'i gŵr ar long o'r enw *Criccieth Castle* gyda chargo o lo i Dde America. Dychwelodd yn feichiog a ganwyd ei mab Robert (Bobby) adref yn Llangybi.

Ym Mehefin 1912 roedd y teulu'n teithio eto, i Periw y tro hwn. Wrth anelu trwyn y llong am adref daethant i ddannedd storm erchyll yng nghyffiniau'r Horn ('Cape Horn'). Aeth y *Criccieth Castle* i drafferthion a dechreuodd suddo. Llwyddodd Robert a'i deulu a phedwar ar ddeg o'r criw i ddianc mewn cwch achub, ond prin oedd eu gobeithion o gyrraedd unrhyw dir sych yn y fath dywydd. Treuliwyd wyth diwrnod hunllefus yn y cwch achub cyn i olau gwan rhyw oleudy eu harwain i un o ynysoedd y Malfinas. Gobaith o'r diwedd ar ôl taith ddychrynllyd o 180 o filltiroedd! Collwyd nifer dda o ddynion yn y drychineb. Roedd Catherine erbyn hyn yn disgwyl ei hail blentyn, a ganwyd Mercy Malvina Thomas adref yn Llangybi ymhen rhai misoedd.




***Stamp o Ynysoedd y Malfinas efo llun o'r 'Criccieth Castle' arno***

Bregus iawn ei iechyd oedd Robert Thomas wedi hynny ond ymunodd â'r Royal Naval Reserve yn ystod y Rhyfel Mawr. Ffrwydrodd yr *HMS Kelvin* ym Môr y Gogledd ym mis Gorffennaf 1917 a chladdwyd corff Robert ym mynwent Capel Helyg, Llangybi. Ym Medi 1933 boddodd Bobby druan tra oedd ar long yng nghyffiniau Antwerp. Trist meddwl bod pedair cenhedlaeth o'r un teulu wedi trigo ar y môr.

Ceir peth o'r hanes yn *The Loss Of The Criccieth Castle* gan Cathy Woodhead (Gwasg Delfryn, Porthmadog).

## Steddfod T

FYDDAI HI ddim yn briodol i ni adael i'r cyfle hwn fynd heibio heb longyfarch yr Urdd a'r cyfryngau am ymdrech wirioneddol deilwng i lenwi bwlch yn ystod wythnos arferol yr Eisteddfod gan ddarparu ar ein cyfer yn wylwyr a gwrandawyr oriau lawer o bleser. Roedd yn braf gweld y plant a'r ieuenctid yn ymroi mor ddyfeisgar i'r gwahanol dasgau a gweithgareddau amrywiol.

Gan fod yr holl drefniant yn newydd i bawb yn gystadleuwyr, yn hyfforddwyr, yn gyflwynwyr, ac i ninnau adra hefyd, mae'n syndod sut y gweithiodd pethau cystal a da oedd gweld yr holl wreiddioldeb yn yr eitemau a'r perfformiadau.

I'r eisteddfodwyr mwyaf traddodiadol yn ein plith roedd hi hefyd yn braf clywed perfformiadau cerddorol y partïon a'r corau. Heblaw synnu at holl drefn y cyflwyniadau trwy gyfrwng y we, yr holl gyd-symud a chyd-ddeall, roedd yn hyfryd medru gwerthfawrogi ansawdd sain y caneuon. Ac i gwblhau'r pleser roedd gwrando ar sylwadau adeiladol Huw Foulkes, y beirniad corawl, yn brofiad gwerth chweil.

Diolch i'r Urdd a'i gydweithwyr. Dyna'r safon wedi ei gosod ar gyfer y Genedlaethol yn yr haf.

Colofn y Coleg

Coleg Meirion Dwyfor

# Y tri mis diwethaf

**Diolch i un o ddarlithwyr y Coleg, Bethan Mair, am fwrw golwg dros y tri mis diwethaf yn ei hanes hi a'r myfyrwyr dan ei gofal.**




***Y criw Cymraeg ar gwrs areithio yn Amgueddfa Lloyd George gyda Betsan Powys a Gwyn Vaughan***

FEL ARFER mae mis Mehefin yn gychwyn ar gyfnod tawel i ni fel staff yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Bydd y myfyrwyr yn piciad i mewn, sefyll arholiad ac yna'n mynd yn ôl adref i adolygu neu'n dod i'ch stafell yn gyffro i gyd bod yr arholiadau drosodd, dweud bod ganddyn nhw dri llond bag o lyfra i'w dychwelyd a'u bod nhw, y pnawn hwnnw, yn mynd i siopa fel paratoad ar gyfer eu gwylia tramor yn griw o ffrindia.

Ond eleni mae hi'n fis Mehefin tawelach o lawer, fel y bu Ebrill a Mai hefyd. Rhyw fygythiad pell fu'r Cofid am gyfnod, rhywbeth ar y newyddion, rhyw jôc ddiniwed ymysg myfyrwyr pan fyddai rhywun yn digwydd tagu ond buan iawn y daeth cwmwl go dywyll dros y chwerthin hwnnw.

Mae'r cyfnod cyn y Pasg yn y dosbarthiadau Cymraeg yn gyfnod hynod brysur – cyfnod yr arholiad llafar. Penllanw gwaith y flwyddyn o astudio *Y Tŵr*, Hedd Wyn ac *Un Nos Ola Leuad*. Mae ôl gwaith ac ymchwil trylwyr yn nhrafodaethau grwpiau bychan, a'r rheini wedi gwasgaru o gwmpas y coleg yn ymarfer a pharatoi. Wrthi'n paratoi roeddem ni yn y gwersi ola rheini ddydd Mercher y cau a'r cloi. Ches i ddim cyfle i ffarwelio'n iawn gyda chriw y Gymraeg ac roedd hynny'n drist a chwithig. Tacla bach drwg y mwyafrif o'r amser a fyddai'n gwneud eu gora i fy arwain ar gyfeiliorn yng nghanol gwers, ond hefyd myfyrwyr cydwybodol oedd â thân yn eu bol, eisiau llwyddo, eisiau gwneud eu marc, a'r Gymraeg yn sylfaenol i bob dim yr oeddent yn ei wneud.

Ychydig ddyddiau cyn cau ro'n i wedi llongyfarch bron i hanner y dosbarth ar eu llwyddiannau yn arholiadau Ysgoloriaeth Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth; roedd hi'n argoeli i fod yn ha' da. Ond y nos Fercher honno, a finna ar fy ffordd adref, cyhoeddwyd bod ysgolion a cholegau yn cau i fyfyrywr ar y dydd Gwener. Dwi'n dysgu'r Gymraeg yn Nolgellau ar ddydd Iau a Gwener, felly er na ches i ffarwelio â chriw Pwllheli fe ges i gyfle da i baratoi criw Dolgellau ar gyfer y dysgu o bell – mi fyddai'n her ac yn sgil newydd i'w dysgu. Ond yna daeth y cyhoeddiad na fyddai yna arholiadau, a dyna ddiwedd ar hynny.

Wedi'r cyhoeddiad penderfynwyd dechrau dysgu gwaith y flwyddyn nesa i griw y flwyddyn gynta, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda'r dosbarthiadau yn trafod yn dda dros y we ac yn cwblhau tasgau trwy gyfrwng Google Classroom fel pe baent yn y dosbarth.

Yn ystod y cyfnod yma mi ydan ni wedi datblygu mymryn ar flog yr Adran Gymraeg ac mae cyfle yno i gael blas ar waith creadigol y dosbarthiadau. Mae croeso i gyn-fyfyrwyr yrru darnau i'w cynnwys ar y blog petaen nhw eisiau hefyd. Cafwyd cyfle yn ogystal i edrych ar bethau tu hwnt i'r maes llafur gyda rhai yn awyddus i wneud tasgau cyfieithu fel enghraifft. Felly, mae hi wedi bod yn gyfnod dysgu gwahanol iawn, ond yn un yr ydw i wedi ei fwynhau gan fod brwdfrydedd y myfyrwyr wedi aros yn gyson trwy'r cwbl. Ac am hynny, mi ydw i'n ddiolchgar iawn.

***Bethan Mair***

# Hald Sadyrnol



***Gwynfor Jones y capten yn derbyn Cwpan Pencampwriaeth y Welsh League 1967/68 gan Bert Williams, Caernarfon***

YN YSTOD y cyfnod lletchwith yma o wythnosau lawer erbyn hyn mae'n debyg bod sawl un ohonom wedi mynd i'r afael â rhai pethau gafodd lonydd am gyfnod go hir – wedi rhoi mwy o sylw a gofal i'r ardd nag arfer ac yn siwr ddigon wedi dyfrio'n siâr, ac ar ben hynny wedi darllen mwy o lyfrau a phori mewn hen betha wrth ddod ar eu traws nhw.

Peth rhyfedd ydi meddwl yn crwydro ac yn aros efo rhyw le neu ddigwyddiad neu gyfnod a hynny wedyn yn dod â'i atgofion. Profiad felly ges i wrth feddwl am Gruff, Rhif 7 Penllystyn, Bryncir a minnau yn mynd ar ein hald Sadyrnol i'r Traeth yn Port i weld y tîm yn chwarae. Cychwyn ar ôl cinio fyddai'n hanes a bodio fyddai'r drefn. Fel arfer fe fyddem wedi cerdded cyn belled â Glandwyfach cyn i ni lwyddo i gael lifft ac yn amlach na pheidio Gwynfor Jones, capten tîm Port ar y pryd, fyddai'n ein codi. Mi fyddai o yn ddyn prydlon iawn bob amser ac ar ben hynny yn ddyn trwsiadus yr olwg, ei gar fel pin mewn papur, ei yrru yn bwyllog a'i sgwrs yn ddifyr i ni hogiau deuddeg a thair ar ddeg oed. Ac un fel yna'n union oedd o ar y cae, amddiffynnwr pwyllog a phasiwr celfydd, a'i gêm i gyd rywsut yn daclus.

Ar ôl cyrraedd gryn awr a hanner cyn i'r gêm gychwyn, ac ar ôl talu ein swllt (neu rwbath tebyg) wrth y giât, ei nelu hi wedyn at y garafán diodydd a phrynu potel o Vimto a phaced o greision Golden Wonder. Wrth fwynhau'r wledd mae'n debyg y byddem yn cadw golwg ar y chwaraewyr yn cyrraedd ac yn falch bob amser o weld J. O. Williams a Dafydd McCarter ac aml un arall.

Yn ystod cyfnod Mel Charles fe'i sefydlodd Port ei hun yn dîm neilltuol o dda a llwyddiannus gan ddenu nifer o chwaraewyr talentog i'r Traeth. Heblaw'r rhai a enwyd eisoes gellir cyfeirio at Ifor Pritchard y gôl-geidwad; Gwynedd Jones (Llwyn Mafon Isaf), cefnwr de caled ei dacl a chwim ei symudiad; Haydn Jones a oedd yn dipyn o ffefryn; Johnny Griffin; Dave Todd, a chefnwr canol (*centre half*) a gofia i yn dda sef Dave Stazicker. Roedd o'n andros o chwaraewr solet ei allu ac yn beniwr arbennig o effeithiol. Roedd o'n sgorio yn aml iawn o giciau cornel a chiciau rhydd.

Er mwyn gwirio rhyw ychydig o'r atgofion yma am gyfnod sydd dros hanner can mlynedd yn ôl bellach, fe ges i fenthyg ffeil gan hanesydd y clwb sef Gerallt Owen o Borthmadog. Mae enwau'r chwaraewyr a chofnod o'r gemau a'r sgorwyr yn ddigon amlwg ond prin ydi'r lluniau. Mi faswn wrth fy modd petai gen i lun o dîm y cyfnod yma i'w gyhoeddi efo'r ychydig sylwadau yma. A dyna wahoddiad i unrhyw un fedar drefnu i ni gael llun o'r fath i gysylltu ag un o gynrychiolwyr Y Ffynnon.



***Meirion Evans***

Erbyn cychwyn bob gêm fe fyddai John Evans, Terfynau, Bwlchderwin a'r hogiau Emlyn, Gwilym a Meirion wedi cyrraedd ac fe gai Gruff a finna lifft adra i Fryncir efo nhw bob amser. Ac fe ŵyr sawl un ohonoch fod Meirion wedi bod ac yn dal i fod yn un o gefnogwyr selocaf Port. Ar hyn o bryd mae o'n is-lywydd y clwb.

***Dewi R. Jones***

# Y gyrrwr ambiwlans newydd

EFALLAI i chi weld Rhys Gethin Williams, 22 Ty'n Rhos, Chwilog yn ddiweddar ond heb gael gair ag o ac mae hynny yn rhywbeth digon cyffredin. Ei weld, siŵr o fod, yn gwibio heibio ar ei feic wnaethoch chi a doedd dim cyfle am sgwrs. Mae Rhys yn feiciwr o fri ac yn aelod o Glwb Beicio Egni. Ond welsoch chi mohono yn edrych fel yn y llun hwn o'r blaen yn ei lifrai dyn ambiwlans.




Ar ôl gweithio'n ddiflino am ryw 18 mlynedd gyda chwmni bwyd Harlech penderfynodd Rhys, sy'n wreiddiol o Drefor, geisio am y swydd roedd wedi dymuno ei chael ers yn blentyn sef gyrru ambiwlans. Gwireddodd ei freuddwyd. Bellach mae Rhys wedi cwblhau cwrs dros bum wythnos yn ystod mis Mai fel Cymhorthydd Gofal Brys yn Abertawe, er mai yn Llanelwy y bwriadwyd cynnal y cwrs cyn dyfodiad y pandemig. Cwblhaodd y cwrs yn llwyddiannus ac ar 3 Mehefin dechreuodd ar ei waith yng ngorsaf Ambiwlans Caernarfon. Ar ôl cael cadarnhad iddo dderbyn y swydd fisoedd yn ôl, prin bod Rhys wedi dychmygu pa mor bwysig fyddai'r gwaith a ninnau bellach yng nghanol effeithiau'r pandemig COVID-19.

Mae cadw'n heini yn ail natur iddo ac o ganlyniad i hynny bu'n cystadlu ar nifer o raglenni teledu. Cyfres antur awyr agored yn ngofal y ddau anturiaethwr, Lowri Morgan a Dilwyn Sanderson-Jones oedd *Ar y Dibyn*. Cafodd yr ymgeiswyr gyfweliad chwe wythnos o hyd a'u gwthio i'r eithaf yn gorfforol ac yn feddyliol er mwyn canfod pwy fyddai'n haeddu ennill y brif wobr. Yn ystod y gyfres bu'n rhaid i Rhys brofi ei hun mewn amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored – o hwylio a chanŵio i ddringo, beicio mynydd a llawer mwy. Ar y rhaglen dangosodd Rhys ei nerth corfforol yn ogystal â meddyliol wrth gyrraedd y rownd gynderfynol gan fethu o drwch blewyn i gyrraedd y ffeinal.

Gweithio fel tîm o dri yr oedd Rhys yn y *Y Siambr*, y gyfres danddaearol gynta yn y byd a ffilmiwyd o dan ddaear a hynny yn hen chwarel y Llechwedd, gydag Aeron Pughe wrth y llyw yn cyflwyno. Yn y gystadleuaeth hon bu'n rhaid iddo amlygu rhai o'r sgiliau a amlygodd yn y gyfres *Ar y Dibyn*, a gorfod dangos nad oedd arno unrhyw ofn uchder. Cwis o dan ofal Aled Hughes oedd *Rhannu*, lle roedd 16 o gystadleuwyr yn cael eu rhannu i ddau gwt ac roedd angen lot fawr o lwc. Yn y rownd gyntaf Rhys atebodd y cwestiwn yn gywir ac ennill y wobr, a fo gafodd yr hawl i ddewis tri arall i'w wynebu yn y ffeinal, lle nad aeth lwc o'i blaid yn anffodus.

Mae'r merched bach, Lowri a Heledd yn falch iawn o'u tad, yn ogystal â Cynan ei fab ac Iola ei wraig.

***Alun Jones***

# Mynd a dod Catrin

DDENG MLYNEDD yn ôl, nid oedd Catrin Fflur Jones, Glan Byl wedi penderfynu'n iawn i ba gyfeiriad y byddai'n mynd gyda'i gyrfa. Ers gadael yr ysgol roedd wedi bod yn gweithio mewn canolfan hamdden yn dysgu plant i nofio ynghyd â dyletswyddau eraill ym maes hamdden. Hefyd bu'n gweithio gyda'r henoed yn Hafod y Gest.

Ar ôl cryn bendroni penderfynodd ei bod am ddilyn cwrs nyrsio – fel ei nain, y ddiweddar Mrs Lowri Griffith a'i mam, Rhian. Astudiodd yn ysgol nyrsio Wrecsam gan wneud y gwaith ymarferol yn ysbytai Gwynedd a chymhwyso fel nyrs ar ddiwedd y cwrs. Ar ôl darfod cafodd swydd yn syth – yn Ysbyty Gwynedd yn yr adran Clefyd Siwgr.



***Catrin Fflur Jones***

Yn 2015 paciodd ei bag a throi am Awstralia lle bu'n gweithio am ddeng mis yn adrannau Damweiniau ac Argyfwng mewn ysbytai yn Sydney a Darwin. Dychwelodd adref gan weithio eto yn yr adran D ac A yn Ysbyty Gwynedd cyn cychwyn i deithio am dri mis yn Asia. Ym Mehefin 2019 aeth i Seland Newydd am ddeng mis i weithio mewn ysbyty yn Auckland. Dychwelodd adref ac yn ôl i Ysbyty Gwynedd. Ond unwaith eto roedd yr ysfa i deithio yn gryf – paciodd ei bag a mynd i grwydro am dri mis yn Periw, Bolifia a Brasil!

Dychwelodd i Lundain. Erbyn hyn, roedd y ddinas yn anterth clefyd y coronafeirws, a bu'n gweithio ar wardiau'r COVID-19 yn Ysbyty Barnett. Ar hyn o bryd, mae'n ôl yn Ysbyty Gwynedd – ond peidiwch â dal eich gwynt, mae rhyw si ei bod ar fin pacio'r bag eto!

# CYNGHANEDD MEWN CHWINCIAD LLYGAD LLYG

## yng nghwmni Twm Morys

### Gwersi 1 a 2

ROEDD HI'N FWRIAD cychwyn dosbarth cynganeddu wythnosol yn ardal Y Ffynnon er mwyn paratoi at Eisteddfod Eifionydd a Llŷn. Yn lle hynny dyma gynnig gwersi ar ffurf colofn fisol, a chyfle i bawb anfon eu gwaith at yr athro drwy ebost a chael ateb ganddo yn ôl: twmtrefan@hotmail.co.uk

Rhowch gynnig arni! Gan fod blwyddyn ychwanegol i baratoi efallai y byddwch chi'n barod i gystadlu am y Gadair!

**SŴN!**

Y peth pwysica i'w gofio wrth fwrw iddi ydi mai *sŵn* ydi'r gynghanedd yn y bôn. 'Melyster i'r glust, ac o'r glust i'r galon,' meddai rhywun. Dyna pam y dylech chi wastad ddweud eich llinellau yn uchel wrth eu sgrifennu…

Wrth wneud barddoniaeth ar gynghanedd mae rhywun yn anelu am gydbwysedd call rhwng sŵn a synnwyr. Ond mae modd creu darn hollol gywir heb synnwyr o fath yn y byd. Dywedwch yr englyn yma yn uchel, neu canwch o ar diwn 'Y Bardd Trwm':

Loffis a zwdwl effar, - go dojw
Hag adajo boblar,
Bo jîff, a hyfar bai jar –
Mwbli a bwbli biblar!

Dydi o'n golygu diawl o ddim byd, hyd y gwn i, ond mae o'n cael 10 allan o 10 am y gynghanedd! Y peth gorau i ddechrau ydi *peidio â phoeni dim am y synnwyr,* dim ond am y sŵn.

**GWERS 1:**
**ACENNOG a DIACEN**

Fel mae pob un dim yn y byd i gyd naill ai yn fadfall neu heb fod yn fadfall, mae pob un gair Cymraeg naill ai yn ACENNOG neu yn DDIACEN.

Gair ACENNOG ydi gair â'r pwyslais ar y silla' ola wrth ei ddweud. Mae pob un gair unsill yn acennog: 'tŷ', 'Siôn', 'Siân'. Ond mae rhai geiriau sydd â mwy nag un silla' yn acennog hefyd: 'caniatâd', 'paraffîn', 'trombôn'.

Gair DIACEN ydi pob gair arall, a'r pwyslais ar y silla' ola ond un: 'mádfall', 'Siónyn', 'cyfrwngddarostyngedígaeth'. Y GOBEN rydan i'n galw'r silla' honno.

**CYFRI SILLAFAU**

Adroddwch yr hen bennill hwn yn uchel:

Rhag ofn i'r haint ein difa
Mi awn i'r Clean am wylia,
Mae 'na draeth i fynd am dro
A chawn broseco'n Asda…

Mi sylwch fod curiadau rheolaidd ym mhob llinell:

Rhag ófn / i'r háint / ein dífa
3 churiad
Mi áwn / i'r Cléan / am wýlia,
3 churiad
Máe / 'na dráeth / i fýnd / am dró
4 curiad
A cháwn / broséco'n / Ásda…
3 churiad

Fesul curiad fel hyn mae creu pennill 'rhydd', ac mae pob mathau o wahanol fesurau, wrth reswm: triban, limrig, soned. Ond rŵan, *anghofiwch y pennill*. Achos canu'n 'gaeth' rydan ni, ac nid cyfri curiadau y byddwn ni o hyn allan ond cyfri sillafau.

Rŵan, am resymau rhy ddyrys i'w hegluro ar y funud, llinell saith silla' sy fwya cyffredin yn y canu caeth: Mae'r crwban wedi denig… / Trombôn ar ynys fechan… /A oes digon o bapur…

Dywedwch y rhain yn uchel gan gyfri'r sillafau ar eich bysedd: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7. Os tarwch eich pen rownd drws y cwt y tu ôl i'r Babell Lên adeg yr Ymryson yn yr Eisteddfod, mi welwch resi o feirdd yn cyfri i saith ar eu bysedd!

A rŵan mae hi'n bryd ichi wneud TASG 1. Heb boeni dim am reolau'r gynghanedd, lluniwch dair brawddeg *saith silla'* sy'n diweddu â gair *diacen*. A waeth inni gael y wers nesa yn syth ddim!

**GWERS 2:**
**YR ORFFWYSFA**

Ym mhob un frawddeg a ddaeth o enau neb erioed, mae 'na saib – weithiau mwy nag un – lle mae'r llais yn oedi wrth lefaru. Enw'r saib i ni gynganeddwyr ydi YR ORFFWYSFA. Er mwyn cael gwybod lle mae'r saib rhaid dweud y frawddeg yn uchel, wrth reswm. Dywedwch y tair brawddeg saith silla' ddiacen yng Ngwers 1 yn uchel eto (Mae'r crwban wedi denig… / Trombôn ar ynys fechan… /A oes digon o bapur…). Lle mae'ch llais chi yn oedi? Onid yn y mannau hyn?

Mae'r crwban / wedi denig…
Trombôn / ar ynys fechan…
A oes digon / o bapur…

A dyma DASG 2: Dywedwch eich tair brawddeg chi yn uchel, a nodwch â'r marc '/' lle mae'r saib. Wedyn gyrrwch eich tasgau ata' i i **twmtrefan@hotmail.co.uk**


**Gwyn Lloyd Williams**
**Adeiladwr Proffesiynol**

***Blynyddoedd o brofiad • Amcangyfrif am ddim***


Rhif ffôn: (01758) 612 736
Symudol: (07880) 581 579

## Dyffryn Madog

NID yw Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog wedi cyfarfod ers tri mis erbyn hyn wrth gwrs a hoffem anfon ein cofion at ein haelodau a'u teuluoedd ac at bawb yn yr ardal a thu hwnt.

Roeddem wedi cynnal cyngerdd blynyddol Clwb Dyffryn Madog ym mis Tachwedd ac wedi penderfynu rhannu'r elw y tro hwn rhwng y Clwb ac Ymchwil Cancr Cymru.

Daeth Nicholas Wreglesworth atom ym mis Chwefror i sôn am ei waith ymchwil ym maes cancr ac i dderbyn siec o £150, ar ran Ymchwil Cancr Cymru, a gyflwynwyd gan Dafydd Parry y Cadeirydd ar ran y Clwb. Dafydd a Nicholas sy'n eistedd yng nghanol y rhes flaen tu ôl i'r siec.



*[Llun: Dewi Wyn]*

## Llangybi

HELO! Gobeithio i chi fwynhau'r tywydd braf, er mae'n debyg bod pawb yn gweddïo am law erbyn hyn er mwyn i'r borfa dyfu. Gobeithio hefyd eich bod yn ymdopi'n iawn yn ystod y cyfnod hwn a'ch bod chi erbyn hyn wedi dod i arfer â'ch bywyd newydd. Cofiwch mai dim ond dros dro y bydd ein bywydau fel hyn ac y byddwn ryw ddydd yn dychwelyd i'r hen ffordd o fyw.

I mi fe basiodd mis Mai yn llawer cynt na'r misoedd blaenorol wrth i mi drio dod i arfer â'r drefn newydd. Teimlad od ar y naw oedd edrych ar fy nghalendr yn fy llofft a gweld bod gen i arholiad Saesneg neu Fathemateg i fod, ond yn hytrach mod i'n dal yn fy ngwely neu allan yn yr ardd.

Ond pan godais ar 23 Mai daeth ton o hiraeth drosof wrth gofio mai hwn fyddai diwrnod y rali yng Ngwythrian, Aberdaron – hiraeth am yr holl ralïau a fu, yr hwyl a'r tynnu coes a'r dathlu. Wedi dweud hynny fe gafwyd rali rithiol eleni gyda chyfle i'r aelodau gystadlu ar Facebook. Cynhaliwyd cystadlaethau ffotograffiaeth a choginio, a braf oedd gweld cynifer o aelodau Llangybi yn arddangos eu sgiliau. Biti na chynhaliwyd cystadleuaeth fwyta gan fod pob un o'r danteithion yn edrych yn hynod o flasus.


Cofiwch ein bod ni'n dal yma i chi'r gymuned leol ac yn barod iawn i fod o gymorth i chi unrhyw dro, boed i nôl neges bwyd/moddion neu i gael sgwrs a rhannu'n teimladau. Cysylltwch â ni dros Facebook neu cysylltwch hefo'n cadeiryddion ni: Deio (Abererch) 07774 245550 neu Glesni (Chwilog) 07564 527316.

Hoffai'r Clwb ddiolch yn fawr i holl weithwyr iechyd yr ardal ac i bob unigolyn arall sy'n ein helpu i gadw'n saff yn ein cartrefi. Edrychwn ymlaen yn arw i gael gweld ein gilydd eto ac i bartïo mwy nag erioed yn rali 2021!



**TAFARN Y PRINS**
**CRICIETH**
**(01766) 522 556**
**Bwyd da ar gael**
*Croeso cynnes i bawb*
*gan Eirian, Phil a'r criw*

**Rhys Evans**
Saer Coed
Bryn Melyn, Treflys, Porthmadog
Gosod ffenestri, drysau a cheginau
Toi, llorio a phob math o waith saer
**Ffôn gartref: (01766) 515 963**
**Ffôn lôn: (07867) 634 063**

**GWNÏO BOB MATH**
**CHWILOG LL53 6PS**
Pob mathau o waith gwnïo
- Addasiadau
- Trwsio dillad
- Llenni
- Bleindiau
- Clustogau
- Dodrefn meddal
- Carafannau
- Cadeiriau


Cysylltwch â Sarah **(07779) 789 541**
ebost: sarahehughes66@gmail.com

# Croesair 412



Yn ystod y cyfnod pryderus hwn nid yw'r Croesair yn cael ei ystyried yn gystadleuaeth. Felly gofynnwn yn garedig i chi ***beidio*** ag anfon eich atebion i Dilys mewn ebost na thrwy ebost. Rhywbeth i'ch diddori yn unig tra byddwch yn hunan-ynysu ydi'r Croesair ar hyn o bryd.

**ATEBION CROESAIR 411**

AR DRAWS: 3 Stiwardio 8 Wedi 9 Cant a Mil 10 Pentre 13 Hyd 15 Bagad 17 Camweddu 18 Pan 19 Aceniad 21 Adladd 24 Ulw 27 Ieuanc 30 Meddyglyn 31 Ffair 32 Breichledi

I LAWR: 1 Chwap 2 Aden 4 Tecell 5 Wincian 6 Rwan 7 Ieithydd 11 Efa 12 Tua 13 Heol 14 Duodd 15 Brau 16 Glew 17 Cad 18 Paralel 20 Claear 22 Dau 23 Awn 25 Di nod 26 Cyni 28 Afal 29 Carw

**Enw:** ........................................................

**Cyfeiriad** ................................................

..................................................................

**AR DRAWS**

3 Aeth Illtud A i wlad bell am brofiad (9)
8 O'r chwith i'r porthladd (4)
9 Adran Gymraeg neu Saesneg ei un daith (4,4)
10 Sicret ar stop (6)
13 Y ferch Ben Aur (3)
15 Gwenynen fawr (5)
17 Babis Now a Cen (7)
18 - - - gorau cam cyntaf (3) Dihareb
19 Ie, darfu, mae yn ymddiheuro (7)
21 Llyncodd ful, O dwp Dd (5)
24 Ysgrifennodd Cynan 'Ym - - - môr' (3)
27 Cân Steve Eaves: '- - - - - - mae Canaan' (6)
30 Wrth adnabod B, bydd babis (8)
31 Arswyd mewn arbrawf (4)
32 Dynion yn dwyn dŵr oddi wrth Lord Moran (9)

**I LAWR**

1 C- - - lle bu (4) Dihareb
2 Sylwedd oddi wrth wenyn neu gannwyll (4)
4 Miss Lucy Llwyd (5)
5 Peth sengl ein u mêt (2,5)
6 Mae ganddynt gwt, a noson arbennig (4)
7 Magu plant wrth eu peilio (6)
11 Tynnu t--'r terfyn (3)
12 - - - pur heb antur ni bydd (3) Dihareb
13 Dwyn y cyffro (4)
14 A- - - yw celu cariad (4) Dihareb
15 Newyn neu flaen ar wadn hen esgid (4)
16 Coeth gan yr Inca (4)
17 C- - ffenestr rhag gwynt drwg (3) Dihareb
18 Ysgwyd yn sâl mae cryd Don (7)
20 Difater a diofal wrth droi da (6)
22 Mae hwn yn cuddio'n swil (3)
23 OK yr Ianc mewn Cymraeg (3)
25 Codi y llythrennau a gafael (5)
26 Tyfiant gwyrdd o Aldi (4)
28 A- - - da yw amser (4) Dihareb
29 Cefnogaeth o ddawn gwahanol (4)


**Haydn E. Williams Cyf.**
Syrfewyr Adeiladu Siartredig
RICS
Gellidara, Penrhos, PWLLHELI
Gwynedd LL53 7HF
**Ceisiadau Cynllunio**
**Cynlluniau Adeiladu**
**Adroddiadau i Brynwyr Tai**
**Gwaith Proffesiynol Cyflawn**
**Ymgynghori**
**(01758) 614 444 (07881) 641 792**
info@haydnewilliams.com
**www.haydnewilliams.com**

**Gwasanaethau Angladdau**
**PORTHMADOG**
**10 Stryd Newydd, Porthmadog**
Rheolwr Swyddfa
ac Ymgymerwr Angladdau
**Karen Vaughan (01766) 514 333**
karen@porthmadogfunerals.com
• Capel Gorffwys Preifat
• Sylw personol 24 awr
• Cynlluniau angladd *'Golden Charter'*
• Cerrig Coffa
**H.O. Davies Cyf.**
Trefnwyr Angladdau Annibynnol
yn gwasanaethu ardal eang.
**www.porthmadogfunerals.com**

**Gwasanaeth Tacsi**
**CRICIETH**
**(01766) 522 726**
Meysydd Awyr
Gorsafoedd Rheilffordd
Gwasanaeth Lleol
UNRHYW BELLTER

# Stori fer iawn

## Myfyrdod Wmffra Huws

‘A NOS DA i tithau hefyd,’ meddai Wmffra Huws gan ddiffodd y set deledu, ac yna dechreuodd ganu dros y lle:

> ‘I ba beth mae’r byd yn dod?
> I ba beth mae’r byd yn dod?
> Ni wn i, a wyddoch chi
> I ba beth mae’r byd yn dod?

‘Ew, ’rhen ’ogia o Landegai. Go dda rwan,’ meddai o dan ei wynt gan eistedd yn ôl i bwyso a mesur beth a welodd ar y Newyddion.

Roedd o wedi bloeddio ‘Haleliwia!’ pan gyhoeddodd Prif Weinidog Senedd Cymru y bwriad i lacio rhywfaint ar y cyfyngiadau, ac y byddai hawl gan ddwy aelwyd i gwrdd yn yr awyr agored dim ond iddynt gadw hyd braich ac aros yn yr ardal leol.

‘Bydd yn dda cael gweld yr hen blantos bach unwaith eto,’ meddyliodd. ‘Ond hyd braich? Tipyn o gamp i Elis a Huw ei frawd bach. Mae nhw’n felina gwynt fel arfar.’

‘A beth am yr aros yn yr ardal leol ’ma?’ meddyliodd wedyn gan dynnu ei sbectol oddi ar bont ei drwyn. ‘Be mae hynny’n ei olygu? Bod yn ymarferol a rhesymol, dybiwn i. *Rule of thumb* mae’n debyg! Ond tydi bawd pawb ddim yr un maint siŵr iawn. Petawn i’n rhoi fy mawd ar fap o’r ardal yma dwi’n byw ynddi dim ond tir agorad a llwybra cerddad fyddwn i’n eu cuddio. Felly ai rhywla y medra i gerddad neu feicio iddo sy’n rhesymol? Petawn i’n rhoi fy mawd ar fap o Loegar fe allwn i guddio’r holl draffyrdd rhwng Llundain a Durham am wn i. Taith car fyddai honno, yntê? A phetawn i’n rhoi fy mawd ar fap o’r byd mi faswn i’n cuddio rhai o’r gwledydd tramor a byddai’n rhaid hedfan mewn awyren wedyn yn bydda.’

‘Dwn i’m wir,’ meddai Wmffra gan godi’n araf o’i gadair. ‘Un peth sy’n siŵr, bora fory ddaw. Y ciando amdani! Y lle saffa i’r meddwl a’r enaid gael llonydd.’

***I.B.***


**Caffi Cedron**

**Pysgotfa Eisteddfa, Pentrefelin**

**Brecwast, byrbrydau, paned a chacen, prydau poeth**
**Bwyd cartref blasus mewn awyrgylch braf ar lan y llyn**

Croeso i feicwyr a chŵn gyda digon o le parcio di-dâl

Mae Tom a Jane a’r criw yn edrych ymlaen
at eich croesawu i gyd eto
pan fyddwn yn ailagor

**Ffôn: (07753) 818 414 / (01766) 522 148**
**www.eisteddfa-fisheries.com**
**ebost: post@eisteddfa-fisheries.com**





WEDI’R CYFYNGIADAU ar awyrennau a moduro gwelwyd nad amaethyddiaeth oedd yn effeithio ar yr amgylchedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn troi eu golygon at amonia sydd yn peri’r llygru mwyaf ar ein hamgylchedd. Cawn fwy o wybodaeth yn y dyfodol ond byddant hwy yn ceisio dod â rheol i weld faint o amonia a gynhyrchir gan adeiladau.

Mae amaethyddiaeth ym Mhrydain yn defnyddio llai o antibiotics o’r hanner nag a wneid ddeng mlynedd yn ôl. Daeth y newid mwyaf yn yr adrannau cadw moch a dofednod. Roedd yr adran gwartheg a cheffylau eisoes wedi cyfyngu, ac mae hyn yn newyddion da iawn i’r cyhoedd.

Mae’r Bwrdd Hyfforddi Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) wedi penderfynu ei bod yn amser i gefnogi’r diwydiant llaeth. Daw hyn wedi blynyddoedd o anwybyddu. Mae’r Bwrdd am wario miliwn o bunnau ar hysbysebu llefrith, ond ychydig yw hyn o’i gymharu â’r hyn oedd yn cael ei wario ar hyrwyddo llefrith gynt fel bwyd maethlon ac iach. Mae’n hen bryd iddynt wneud rhywbeth gyda’r holl arian a gasglasant oddi ar gynhyrchwyr ar hyd y blynyddoedd.

Mae adroddiadau fod golwg go ddigalon ar y caeau haidd a gwenith yn Lloegr: yr haidd gaeaf wedi hedeg ac yn ddim uwch na chwech i wyth modfedd. Golyga hyn y bydd yn anodd i’w dorri ac yn amhosibl i gasglu’r gwellt. Megis profiad llawer yn Llŷn ac Eifionydd mae’r cropiau silwair yn llawer llai nag arfer hefyd.

Colled fawr i economi’r Gymru wledig yw gohirio’r sioeau, y treialon cŵn defaid a gweithgareddau’r Ffermwyr Ieuanc. Er fod ymdrechion i gynnal gweithgareddau ar-lein mae’r elfen gymdeithasol yn eisiau, ac mae hynny’n bwysig yn niwylliant cefn gwlad fel y gwyddoch. Mae’r clybiau yn cynorthwyo’r gymdeithas yn ystod y dyddiau blin hyn – a llawer o ddiolch iddynt am hynny.

Diolch hefyd am y tywydd braf. Cadwch yn saff.




## Cofiwch anfon eich newyddion lleol atom erbyn 14 Gorffennaf




LLONGYFARCHIADAU i Dilys Pritchard Jones, Yr Ynys ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod Dilys ac y daw cyfle i ddathlu eto pan ddaw'r cyfnod caethiwo hwn i ben.

Gwell hwyr na hwyrach – pob hapusrwydd a dymuniad da i'r meddyg Bryn Jones a'i deulu yn Bodriala, i Gerallt a Pat yn Stad Tan y Fynwent, ac i Gwilym, Mared a'r plant Enid a Moi yn Tyddyn Ychain. Croeso i chi gyd.

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan i rai sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar: Alun Lloyd Price, Clydfan ac Evan Evans, Dwylan, Glan Erch. Dymunwn yn dda hefyd i Margaret Hughes, Angorfa wedi iddi syrthio yn yr ardd a thorri asen – brysiwch wella.

Trist clywed am farwolaeth tad Marie Perkins, Ger y Bont. Cydymdeimlwn â'i theulu.


Llongyfarchiadau i Cian, Llannerch ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth coginio'r Rotary Young Chef. Cafodd ganmoliaeth uchel am baratoi bwyd o safon uchel. Pob lwc i ti Cian yn y rownd nesaf yn Stratford.

Susan Jones Properties ydi'r enw mae Susan Jones, Penbrynhuddig wedi'i roi ar y cwmni gwerthu tai a gychwynnodd yn ddiweddar. O edrych ar ei gwefan www.susanjones.cymru mae'n edrych yn debyg ei bod yn llwyddiannus iawn. Wrth gwrs mae ganddi brofiad helaeth yn y maes gan ei bod wedi gweithio i asiant gwerthu tai yn y gorffennol. Os ydach chi am brynu neu werthu tŷ, cofiwch am Susan a'i menter newydd! Dymuniadau gorau a phob llwyddiant at y dyfodol.




LLONGYFARCHIADAU i dri o bobl ifanc yr ardal ar ddathlu penblwyddi arbennig. Roedd Lowri, Llecheiddior Ganol yn 21 ar 28 Mai, ei brawd Einion yn 18 ar 12 Mehefin ac Elgan, Llystyn Canol yn 18 ar 16 Mehefin. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.



*Edwin a Mary Hughes*

LLONGYFARCHIADAU i Mary ac Edwin Hughes, Golden Eagle ar ddathlu eu Priodas Ddeiamwnt ar 16 Mai. Yn goron ar y dathlu fe dderbynion nhw'r Fendith Apostolaidd gan y Pab Francis ar ffurf tystysgrif a welwch yn y llun. Mae hi'n dystysgrif arbennig o hardd a go brin bod nifer fawr o'n darllenwyr erioed wedi gweld un o'r fath o'r blaen.




*Y Fendith Apostolaidd*

Llongyfarchiadau hefyd i Elizabeth a Ken, Awelon, Muriau ar ddod yn hen nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch, Martha Elin i Robin ac Elin, Bryn Efail Isaf a chwaer i Gwilym Ifan. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Er gwaetha'r cyfyngiadau dros y misoedd diwethaf mae'n braf gweld bod y siopau sy'n cynnig y gwasanaethau hanfodol yn gyson brysur. Diolch iddyn nhw am ofalu bod eu drysau'n agored yn ddyddiol sy'n cael ei werthfawrogi'n arw gan drigolion y dref a'r ardal.

Dymuniadau gorau i Mrs Alwena Roberts sydd wedi symud o Ros Heli, Penaber i fyw at ei merch Tesni a'r teulu. Dymunwn iddi bob hapusrwydd.

Rhyfedd ydi gweld y dref a'i hatyniadau'n dawel. Petai'r amgylchiadau'n ffafriol mae'n bur debyg y buasai'r lle dan ei sang a'r ymwelwyr a'r bobl leol yn cyd-fwynhau'r heulwen. Does dim amdani felly ond cadw'n ddiogel ac edrych ymlaen.

@YFfynnon
YFfynnon




LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Catrin a Steve Clark, Lodge Bryncir ar achlysur hapus dathlu eu Priodas Arian ar 3 Mehefin.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Pat, Edward a Christopher Naish, Glan Wern yn eu profedigaeth o golli mam a nain arbennig sef Ann Wyn Owen, Garndolbenmaen, gynt o Penrhos, Golan.




ROEDD rhifyn mis Mai o'r Ffynnon newydd gael ei gwblhau pan glywsom y newydd trist am golli Mrs Nan Jones, Bryn Awel gynt – priod y diweddar Barchedig T. R. Jones, gweinidog y Capel Uchaf am 18 mlynedd o 1963 i 1981. Roedd Mrs Jones yn wraig gymeradwy iawn yn y pentref, ac yn un o sylfaenwyr cangen Chwilog o Ferched y Wawr yn 1969. Roedd drws ei chartref bob amser yn agored i bawb, gyda chroeso arbennig i bobol ifanc. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i merched Meryl, Eleri a Bethan, ac â holl gysylltiadau'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad yn yr un modd at Sian, John a Huw, Murclwtlloer yn eu profedigaeth o golli tad Sian, Mr Hugh Eirwyn Jones, Morfa Nefyn yn ddiweddar. Hefyd cofiwn am Manon a theulu Ty'n Coed Uchaf yn eu profedigaeth hwythau o golli mam Manon, Mrs Megan Tudor Griffith, Ty'n Rhos, Llangwnadl. Teulu arall sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y mis yw Alun ac Enid Jones, Erw Deg wedi i Alun golli ei chwaer, Mair Evans, yng Nghaerfyrddin. Anfonwn ein cofion atoch i gyd.

Gobeithio fod Gwyneth Griffiths, Dolydd yn gwella ar ôl y ddamwain a gafodd yn ddiweddar a hefyd Nanw, merch fach Beca a Rhodri James, Syntir sydd wedi torri ei choes. Mae John Tollitt, Bron Gadair yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd. Brysiwch wella i gyd.

Braf cael croesawu newydd-ddyfodiaid i'r pentref. Daeth Carl Williams o Lanystumdwy i fyw i Glynmor, ac Aneurin a Gwen Pritchard Griffith i Pont y Felin. Symud o ganol y pentref fu hanes Gwilym, Mared, Enid a Moi wrth iddynt fudo o Tŷ Capel Uchaf i Dyddyn Ychain yn ymyl Broom Hall. Gobeithio bydd pawb yn hapus eu cartrefi newydd.




LLONGYFARCHIADAU i Dafydd Dudley, 1 Bryn Eifion ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Gwyn Morgan, Siop Newydd a'r teulu ar farwolaeth ei fam sef Mrs Gwyneth Morgan, Porthmadog (Croesor gynt).

Trist iawn hefyd oedd clywed am farwolaeth Mrs Nan Wyn Owen, 4 Bro Pedr Fardd, ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei merch Pat, ei mab Alan a'i chwaer Rose a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Dymunwn wellhad buan i Mr William Povey, Maes Hyfryd sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar.




GYDA THRISTWCH y cofnodir marwolaeth Mrs Ann Wyn Owen, a fu farw yn ei chartref, 4 Bro Pedr Fardd, Garndolbenmaen ar 23 Mai yn 94 oed. Cynhaliwyd yr angladd ym mynwent Bethel ar 1 Mehefin. Gweddw ydoedd i Mr Rheinallt Owen, a chofir yn annwyl amdanynt yn byw yn Mhenrhos, Golan. Am flynyddoedd wedi i Ysgol Golan gael ei throi yn Ganolfan Gymdeithasol yn 1974 bu Mrs Owen yn gweithredu fel gofalwraig yr adeilad. Mawr oedd parch a gwerthfawrogiad aelodau'r Pwyllgor Rheoli a'r gymdeithas leol o'i gwaith cydwybodol a'i charedigrwydd diamod. Mewn gair 'roedd hi'n llawer mwy na gofalwraig'. Gwnaeth gymwynasau lu ar wahanol achlysuron a hawdd iawn oedd gallu mynd ar ei gofyn. Bu'n gefnogwr brwd i amrywiol weithgareddau'r Ganolfan a braf bob amser oedd cael ei chroesawu i'n plith. Deuai i mewn â gwên ar ei hwyneb ac yn barod am sgwrs. Wedi iddi symud i Garndolbenmaen daliodd ati i gefnogi'r gweithgareddau, boed gyngerdd neu ddarlith yn Golan neu'r Noson Goffi Flynyddol a gynhelid yn y Ganolfan Gelfyddydol ym Mhorthmadog.

Cydymdeimlir yn ddwys â'i merch, Mrs Pat Naish a'i mab, Mr Alan Owen a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth am fam, mam-yng-nghyfraith a nain arbennig iawn. Diolch am gael ei hadnabod a'i chyfri'n ffrind.




LLONGYFARCHIADAU i Megan Jones, Ty'r Felin ar ddod yn hen nain ddwywaith ym mis Ebrill. Croeso i'r ddau fach.

Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Price, Foelas ar ddod yn daid unwaith eto. Ganed mab bach i Menna a'i chymar yng Nghaernarfon.

Cofion at bawb a gobeithio'ch bod yn cadw'n iach ac yn saff yn y pentref a thu hwnt.

Llongyfarchiadau i'r trigolion sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Gobeithio iddynt gael diwrnodau da er gwaethaf y sefyllfa bresennol.

Cydymdeimlwn yn fawr hefo Daniel Stuttaford ar golli ei dad Neal yn ddiweddar, hefyd Megan Jones ar golli ei brawd, ac Einir Ellis ar golli ei nain. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd estynedig i gyd hefyd.

Enillwyr Pêl Fonws yr Ysgol mis Mawrth, Ebrill a Mai: Sydna Ellis, Ann Williams, Sianelen Pleming, Beti Hughes a Caren Humphreys.

Os oes gan unrhyw un newyddion o'r pentref i'w roi yn y Ffynnon cysylltwch â Lillian yn Garej Ceiri.




LLONGYFARCHIADAU i Alun Penbryn ar ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant.

Cydymdeimlwn â Mrs Gina Owen, Ty'n Gamdda ar golli ei chwaer yn Llanfairfechan yn ddiweddar.




**YN BEDWAR UGAIN OED**

Fel erioed, y mae'r goeden – eleni
Hyd at flaen y gangen
Yn lliw braf drwy ei holl bren,
Yn dalent ymhob deilen.
*Myrddin ap Dafydd*

LOC-YP ynteu Loc-down, fydda i byth yn siŵr p'run, ond mae'n debyg mai yn y Loc-yp rydan ni wedi byw yn ystod Loc-down y tri mis diwethaf. Yn ystod wythnos gyntaf y Loc-down dyma gyfarfod ag un o blant yr ysgol ar ei ffordd adra. Fel hyn yr aeth hi yn ystod y sgwrs rhyngom. Wedi iddo gamu rhyw ddwylath oddi wrtha i ac edrych yn graff, '*Faint ydi* eich oed chi?' gofynnodd. 'Pam dy fod di'n gofyn hynna?' medda finna, a'r ateb yn syfrdanol, 'Mi o'n i'n meddwl bod pawb dros ei saith deg i fod yn y tŷ.' Hwyrach ymhen blynyddoedd i ddod y cawn ni Brif Weinidog arall o'r pentra.

Yn 96 oed yn yr Alban bu farw Mrs Margaret Goodrick, mam Jean Cefn y Gader. Anfonwn ein cofion diffuant at Jean, Ann a'r teulu i gyd.

Ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad i Mr John R. Owen, Meillionen. Mae John wedi gorfod cael triniaeth frys yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Gobeithiwn ei weld o gwmpas yn fuan.

*Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'n gohebydd lleol Margiad Elias, Eithinog oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 2 Mehefin. (Gol.)*





GYDA dyfodiad y pandemig gohiriwyd sawl digwyddiad lleol a chenedlaethol gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd. Heb os, bu hyn yn destun siom a thristwch i lawer. Diolch i'r Urdd felly am Eisteddfod T roddodd gyfle amgen i ni flasu talent ieuenctid Cymru, a hynny o gartrefi cannoedd o gystadleuwyr ledled y wlad.

Difyr iawn oedd gwrando ar Elin, Cae Hetar a'i chwaer, Mair Gwindy, yn rhannu atgofion am eu tad ar raglen arbennig gan Dei Tomos yn ddiweddar, a hynny i gofio canmlwyddiant geni Wil Sam.

Mae un ferch ifanc o'r ardal wedi cadw'n brysur iawn yn ystod y cyfnod yma, a hynny er lles eraill. Gosododd Sioned Elias, Hendre Cennin her iddi'i hun am 25 diwrnod i wneud 25 o ymarferion eistedd-i-fyny. Yn ddyddiol byddai'n gwneud hyn yn fyw ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyddodd i godi cyfanswm o £165 tuag at un o'r elusennau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Bellach mae her newydd ar y gweill ganddi sef seiclo chwe chilometr bob dydd o Hendre Cennin gyda'r arian a gesglir yn mynd tuag at elusen Awyr Las. Dewisodd Sioned yr elusen hon gan fod ei thad, Alun, wedi ac yn parhau i dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Felly, os gwelwch chi Sioned yn seiclo ar ffyrdd y Llethrau a thu hwnt, cofiwch gyfrannu.

*Llongyfarchiadau i Bethan Dobson, y gohebydd lleol, ar dderbyn gradd Meistr yn y Celfyddydau mewn Ysgrifennu Creadigol gyda Rhagoriaeth o Brifysgol Bangor. Cewch ragor o hanes taith addysgol ddifyr Bethan yng nghorff y papur (Gol.)*




DA IAWN chdi Wmffra Now Llywelyn o Fochras Uchaf, Ceidio (mab Iorwerth, Hen Felin gynt). Pedair oed ydi Wmffra ac mae wedi beicio can cilometr yn ystod mis Mai o gwmpas lonydd bach Ceidio, cyfwerth â'r daith o'i gartref i Ysbyty Gwynedd ac yn ôl. Mae Wmffra wedi llwyddo i godi £1,750 at elusen Awyr Las.



***Wmffra Now yn mynd ffwl sbid ar ei feic***

Er na chynhaliwyd Gŵyl Haf Merched y Wawr ym Machynlleth eleni, cynhaliwyd Gŵyl Rithiol dydd Sadwrn, 16 Mai yn ei lle. Dyfarnwyd nifer o wobrwyon yn ystod y dydd a daeth Cangen Llwyndyrus yn agos iawn i'r brig efo'i rhaglen am y flwyddyn, rhaglen arbennig gan fod Merched y Wawr yn dathlu 50 mlynedd. Yn y llun gwelir y swyddogion yn dal y rhaglen a grewyd gan y Llywydd Meinir Roberts, a'r dystysgrif.



***Marian Williams y Trysorydd, Meinir Roberts y Llywydd, ac Elizabeth Williams yr Ysgrifennydd***

Dymuniadau gorau i Menna Pritchard, Pennant, Rhosfawr ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Mehefin, a hefyd i Carwyn a Gwawr, Carnguwch – y ddau yn dathlu eu pen-blwydd yn 40 yn ddiweddar. Yr un yw'n dymuniad i John Griffith, Tyddyn Ffynnon, yntau'n dathlu pen-blwydd arbennig, a hefyd i Llio Meirion, Ysgubor Plas ar ddathlu ei hanner cant yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Gronw a Lois, Ysgubor Fawr oedd yn aelodau o'r Ensemble buddugol yn y gystadleuaeth Ensemble dan 25 oed yn Eisteddfod T yn ddiweddar.




LLONGYFARCHIADAU i Mrs Ann Shilvock ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 5 Mehefin.




LLONGYFARCHIADAU i John a Margaret, Garreg Frech ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Elen ac Elgan, Castell, Nant Gwynant, brawd bach i Ffion.

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Bethan Jones a'r teulu, 2 Rhesdai Glanmorfa, Pwllgoleulas yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain oedd mor annwyl yn eu golwg, sef Mrs Annie Mary (Nan) Jones a fu farw yng Nghartref Gofal Bryn Meddyg, Llanaelhaearn ar 14 Mai. Ceir teyrnged iddi ar dudalen arall o'r rhifyn hwn. Anfonir cofion annwyl atoch i gyd yn eich colled a'ch hiraeth.




LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Bethan ac Andy, Fron Heulog ar enedigaeth merch fach sef Penny Rose, chwaer fach i Mabli Pearl.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Dafydd Parry (Dafydd Bach Hafod Llyn) o Celyn Bach, 40 Bryn Tyddyn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i wraig Pam a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Hefyd daeth profedigaeth i ran Iola, 5 Bryn Tyddyn a gollodd ei mam, sef Mrs Gwyneth Morgan, 1 Godre'r Gest, Porthmadog. Fel pentrefwyr anfonwn ein cofion cynnes atoch chi a'r teulu.

Bu Ken Hughes, 33 Bryn Tyddyn yn cadw dyddiadur fideo o'i amser yn hunan-ynysu i ddogfennu profiad un sy'n byw ar ei ben ei hun. Cawsom weld y rhaglen wych *Ken Hughes yn Cadw Ni Fynd* nos Wener, 15 Mai. Diolch i'r amryddawn Ken am raglen hollol naturiol a gonest, yn enwedig cofnodi cael pryd o 'fish fingers'! Codi calon rhywun, ac 'mi gawn ni i gyd ddawnsio eto'.




MIS ARALL wedi mynd a dyma ni'n parhau dan reolau'r 'clo mawr'. Gobeithio fod pawb yn dal ati ora ag y medrwn ni. Diolch fod y tywydd wedi bod cystal ac mae'n swyddogol bellach ein bod wedi profi'r mis Mai sychaf ers dechrau cadw cofnodion. Ydi mae'r ddaear yn grimp ac angen glaw – croeso iddo ddod, ond iddo wneud hynny yn ystod y nos yndê!

Byddwch yn ofalus pan fyddwch allan yn cerdded – mae sôn bod dipyn o nadroedd o gwmpas a chafodd Carol Tyddyn Ronnen dipyn o sioc o weld un yn torheulo'n ddiweddar ar yr hen stand laeth ym mhendraw'r lôn.

Mae'n siŵr i amryw ohonoch weld y rhaglen *Sioe Fach Fawr* o bentref Llithfaen a ddarlledwyd ar S4C ar 23 Mai; difyr oedd hi hefyd. Gwelwyd cip ar Owain Penbryn arni – fo oedd ar y drymiau hefo'i grŵp Pys Melyn. Mae rhaglenni fel hyn yn dangos beth ydi gwerth cymuned ac yn y cyfnod presennol mae'n werth mwy nag erioed.

I'r rhai ohonoch sy'n hyddysg yn y cyfryngau cymdeithasol tybed ydych chi wedi bod yn pori drwy hen luniau cymuned y Ffôr ac un Pentreuchaf ar Facebook? Mae gweld yr hen luniau'n hynod o ddifyr ac os oes gennych chi ryw focs yn yr atig neu rywle yn cynnwys yr hen drysorau hyn, byddai'n ddifyr iawn eu gweld ac yn fodd i ddod â'r gorffennol yn fyw i ni.




LLONGYFARCHIADAU calonnog i Robin ac Elin, Bryn Efail Isaf ar enedigaeth merch fach ar 29 Mai ac i Mrs Eleanor Roberts, Bryn Efail Isaf ar ddod yn hen nain unwaith yn rhagor. Croeso cynnes i Martha Elin, chwaer fach i Gwilym Ifan a phob dymuniad da i'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sharon ac Alun Roberts, Gruffudd a Siwan, Muriau Bach yn eu profedigaeth lem o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl sef Mrs Joan Strain, Abersoch. Anfonwn ein cofion cynnes atoch ac at y teulu i gyd.




DAETH profedigaeth i deulu Annedd Wen gyda marwolaeth Mr Edward Williams – priod, tad a thaid gwerthfawr. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd a bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich colled.

Ar ôl treulio cyfnodau mewn gwahanol ysbytai mae Mrs Mattie Jones, Treflan wedi mynd i aros i Southport at Gwenda ei merch a'i gŵr. Gobeithio eich bod yn cryfhau ac yn teimlo'n well erbyn hyn.

Prin iawn yw'r newyddion y mis hwn a ninnau o dan effaith cyfyngiadau y coronafeirws a chyfyngu ar ein symudiadau a'n cyfarfodydd arferol. Cofiwch roi gwybod os am gynnwys newyddion yn y papur (01766 810501).




ANFONWN ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Dafydd Evans, Hendy sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.


**TŶ AR OSOD**

TAI CHARLES JONES
(Elusendai), Llangybi

Eiddo ar osod i breswylwyr newydd am gyfraniad rhad.

Yn cynnwys un ystafell wely, ystafell folchi, lolfa a chegin.

Am fwy o fanylion, ffoniwch:
**(01766) 819 186 (ar ôl 6 yh.)**

**@YFfynnon**

**YFfynnon**

mudiad meithrin – arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Arolygiaeth Gofal Cymru – Care Inspectorate Wales

**CYLCH MEITHRIN GARNDOLBENMAEN**
**Rydym nawr yn casglu enwau plant newydd**

Mae Cylch Meithrin Garndolbenmaen yn darparu gofal ac addysg sesiynol o ansawdd uchel i blant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant ddysgu a chymdeithasu o dan ofal staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig yn ystod sesiynau'r Cylch Meithrin.
Rydym wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru, cofrestru fel Darparwr Addysg 3 oed ac yn rhan o gynllun Gofal Plant Gwynedd.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch ✉ cylchgarndolbenmaen@outlook.com ☎ 07955 875 322
Rhif Elusen: 1056090

Eiddo iola jones Properties
07443 339 106
eiddoiolajones@icloud.com
Eiddo iola jones Properties

**Eich Asiant Gosod Tai Preswyl lleol**
**Gwasanaeth dibynadwy a phroffesiynol**

**HENRY JONES (CRICCIETH) CYF**
YMGYMERWYR ANGLADDAU
Capel Gorffwys • Rhes Capel • Cricieth
**Ffôn: (01766) 522 854 (01766) 523 463**
GWASANAETH GOFALUS A PHERSONOL
24 AWR

**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Gostyngiad o 30% i drigolion lleol sy'n dymuno mynychu'n cyrsiau yn ddi-breswyl

Am ragor o wybodaeth,ewch i: **www.tynewydd.cymru**
neu cysylltwch am sgwrs:
Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd LL52 0LW
**tynewydd@llenyddiaethcymru.org / (01766) 522 811**



**DEWI JONES**
**TRYDANWR**
**Domestig a Masnachol**
Gosod, atgyweirio ac ychwanegiadau trydanol
Gwaith profi ac archwilio
Pencaenewydd, Pwllheli
**(07528) 178 464 delfryn@btinternet.com**




# Pam Man U?




***Fi a Mr Cantona!***

AR GAEAU Nantcyll Uchaf roedd 'na wastad gyfle am gêm o bêl-droed. Dwy gôl wedi eu hadeiladu o weddillion adnoddau ffensio, rhwyd y gôl o linyn bêls, welingtyns, legins a rhan amla digon o fwd i sglefrio yn y dacyl ac i ddeifio yn y gôl. Hogia Nantcyll Ganol neu Eithinog Wen yn galw draw. Three-goals-and-in. Llond trol o hwyl a oedd wastad yn gymysg â'r elfen gystadleuol iach fyddai yna rhwng dau frawd, Ian Arwel a minna.

A dyna gychwyn y diddordeb mewn ffwtbol. Ian Arwel eisoes wedi dewis dilyn Leeds United. Pam Leeds sgin i ddim syniad, eiliad wan dybiwn i, er ma'n rhaid dweud mai nhw oedd y tîm cryfa yn nyddia Don Revie tan y golled fawr yn erbyn Bayern Munich yn 1975. Amser felly i finna ddewis rhywun i'w cefnogi. Mi fedra i ddweud heb betruso mai Ebrill 1974 oedd y foment y gwelais y goleuni – eureka! Manchester United yn erbyn Manchester City. Chwe munud cyn diwedd y gêm o flaen 57,000 o dorf, a Dennis Law o bawb yn gwisgo (mae'n boenus ei grybwyll) y crys glas, a'i 'back heel' bach slei i gôl y Stretford End a dawelodd theatr y breuddwydion a chyfrannu at selio tynged y Cochion i fynd lawr i'r ail adran. Dyn a oedd wedi bod yn rhan annatod o ailadeiladu'r clwb ar ôl trychineb y Busby Babes yn 1958 ym Munich ac yn un o'r drindod efo Best a Charlton. Ar ôl sgorio fe safodd yn syfrdan cyn cerdded â'i freichiau wrth ei ochor a'i ddagrau yn llifo – 'After 19 years of trying my hardest to score goals, here was one that I almost wished hadn't gone in'. A dyna'r foment y dewisais i Manchester United.

Ymlaen â ni rwan at gyfnod bws Pen-y-groes ac i Old Trafford am y tro cyntaf yng nghwmni Dad, Robin Siop Eifionydd ac Ian, Gwilym Meirion a Rhys. Wna i byth anghofio cerdded lawr United Way. Y dorf yn enfawr, yr heddlu ar eu ceffyla anferthol yn cadw trefn. Profiad rhyfeddol oedd cerdded i mewn i'r cae ac o'r diwedd gweld y tîm am y tro cyntaf yn fyw, ond nid y tro olaf. Ian, Rhys a finna yn chwyrnu ar ein tadau a oedd yn trafod gwartheg duon o bob dim yn ystod y gêm! Y cof hefyd o golli gêm a phwdu yr holl ffordd adref. Pwy allai ddychmygu y byddwn ymhen ugain mlynedd yn cael gwahoddiad i swyddfa Alex Ferguson am wisgi bach cyn gêm, ac ymweld â Carrington i weld y chwaraewyr yn ymarfer? Anrheg bach o fara brith i Alex a fynta'n wên o glust i glust wrth fynd â fo adra i Cathy.

Yr hyn sy'n aros yn y cof bennaf yw tymor 88/89. Ennill dim byd am flwyddyn ac yna dod yn bencampwyr yr Adran 1af, ennill Cwpan yr FA ac yn goron ar y cwbl curo Bayern Munich i gipio Cwpan Pencampwyr Ewrop. Finna'n rhedag 'nôl o berfformiad o *Don Giovanni* ym Mharis i weld y gôl gan Ole Gunnar a dorrodd galonnau'r Almaenwyr.



***Alex Ferguson***

Yn sicr fe newidiodd Sir Alex yr holl drefn yn Old Trafford. Fe dybiwn i fod Mr Schmeichel hefyd wedi bod yn chwip o arweinydd i newid meddylfryd pawb a phopeth. Ond i fynd 'nôl at dîm fy mrawd am funud. Nhw roddodd un o'u chwaraewyr ar blât i United, un a weddnewidiodd y lle. Diolch Howard Wilkinson am roi'r hen ddewin o Ffrancwr, Eric Cantona, i ni am chydig mwy na miliwn. Fel y dywedodd Ferguson, 'the can opener'. Sgwn i a wisgodd o rywdro welingtyns a legins ar gae mwdlyd?!

***Bryn Terfel***